



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Uned Gomisiynu
Cydwethredol Cenedlaethol
National Collaborative
Commissioning Unit

TU HWNT I'R ALWAD

ADOLYGIAD CENEDLAETHOL O
FYNEDIAD AT WASANAETHAU BRYD
I'R RHEINY SY'N PROFI PRYDERON
IECHYD MEDDWL A/NEU LESIANT

HYDREF 2020

AWDURON: S . MILLS , R . BAGSHAW AC A . WATT

TU HWNT I'R ALWAD

Awduron yr Adolygiad Cenedlaethol hwn

Ysgrifennwyd yr Adolygiad Cenedlaethol hwn gan Mr. Shane Mills, MSc, RMN, Cyfarwyddwr Ansawdd ac Iechyd Meddwl/Anabledau Dysgu yn yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol gydag ymchwil, dadansoddi a chyfraniadau gan Dr Andrew Watt, BSc, PhD SFHEA, a Dr Ruth Bagshaw BSc, DclinPsych uwch academyddion a darlithwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r awdur ddiolch i'r canlynol am eu cefnogaeth yn ystod yr Adolygiad Cenedlaethol hwn:

- Yr heddlu a thrinwyr galwadau ambiwlans, staff ystafelloedd rheoli a thimau cefnogi iechyd meddwl am ateb y galwadau a chasglu'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr Adolygiad Cenedlaethol hwn. Gwirfoddolwyr a staff ICAN am gasglu gwybodaeth a ddefnyddir yn yr Adolygiad Cenedlaethol hwn.
- Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu Gwent, Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân De Cymru, Byrddau Iechyd GIG Cymru a'r Awdurdodau

Lleol yng Nghymru am eu cydweithrediad yn ystod yr Adolygiad Cenedlaethol hwn.

- Aelodau o'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol a ddarparodd gyngor a chymorth amhrisiadwy.
- Staff yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol am gydlynu a chefnogi'r Adolygiad Cenedlaethol.

Nodiadau

- Gellir ystyried rhai o'r geiriau sbardun yn y casgliad data unigryw yn ddi-flewyn-ar-dafod ac ni fwriedir unrhyw dramgwydd gan y defnydd o derminoleg lafar
- Casglwyd y data a'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr Adolygiad Cenedlaethol hwn cyn pandemig y Coronafeirws a all effeithio ar alw ac ymateb y gwasanaeth yn y dyfodol.


Cefndir yr Adolygiad Cenedlaethol hwn

Comisiynwyd yr Adolygiad Cenedlaethol hwn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl drwy Grŵp Sicrwydd y Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl. Comisiynwyd yr Adolygiad Cenedlaethol hwn er mwyn cael mwy o ddealltwriaeth o'r materion sy'n arwain y cyhoedd at ddefnyddio'r gwasanaethau brys pan maent yn profi pryderon iechyd meddwl a/ neu lesiant.

Yn wreiddiol, roedd yr Adolygiad Cenedlaethol hwn yn ymdrin â'r dull ac achosion o gludo gan wasanaethau brys neu gludo pwrpasol ar gyfer person yn dioddef problemau iechyd meddwl ar

ôl cael ei asesu ond, o ganlyniad i'r amhariad ar gynhyrchu'r Adolygiad Cenedlaethol hwn a achoswyd gan Bandemig y Coronafeirws, bydd yr agwedd hon yn cael ei hasesu drwy adroddiad ategol. Bwriadwyd ymgymryd ag arolwg o 'brofiadau personol' mewn cydweithrediad â'r elusen iechyd meddwl Mind a Chynghrair Iechyd Meddwl Cymru. Nod yr arolwg hwn oedd deall y profiadau personol o gysylltu â'r gwasanaethau argyfwng cyhoeddus ynghylch pryder iechyd meddwl neu lesiant yn well. O ganlyniad i'r amhariad a achoswyd gan Bandemig y Coronafeirws, bydd yr arolwg hwn yn cael ei gynnal yn ddiweddarach a'i gyhoeddi drwy adroddiad ategol.

Mae oddeutu 900 o bobl y dydd yng Nghymru yn ceisio cymorth gan y sector cyhoeddus ar gyfer pryderon iechyd meddwl neu lesiant, ac mae 300 o'r rhain yn alwadau brys



Mae'r darlun graffig at ddibenion darluniadol yn unig. Mae'r ffigyrau yn gyfartaleddau. Yr union ffigyrau yw **946** ar y cyfan, **319** wedi'u dynodi'n alwadau brys (galwadau '999' i'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans, Adran 136 a phresenoldeb mewn adran achosion brys.). Daw data'r heddlu o ddiwrnod cipolwg ar iechyd meddwl Tachwedd 2019. Roedd **4%** yn ymweliadau ag adran achosion brys. Daw data arall o geisiadau data unigryw neu ddata cyhoeddedig. Nid yw'r data yn cynnwys cefnogaeth llinell gymorth, y trydydd sector na gofal cymdeithasol. Nid yw ffigyrau'r heddlu yn cynnwys unigolion yn y ddalfa gyda fflagiau iechyd meddwl na galwadau unigolion coll. Mae'n bosib bod peth gorygyfwrdd, gan y gallai galwadau i'r heddlu arwain at

alwad i'r gwasanaeth ambiwlans, presenoldeb mewn adran achosion brys neu atgyfeiriad at wasanaethau iechyd meddwl y GIG, yn yr un modd gallai galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans neu GIG 111 arwain at alwadau i'r heddlu, presenoldeb mewn adran achosion brys neu atgyfeiriad at wasanaethau iechyd meddwl y GIG. Gallai rhai ffigyrau adrannau achosion brys gynnwys atgyfeiriad dilynol at wasanaethau cyswllt seiciatrig neu ICAN. Gallai nifer o alwadau neu atgyfeiriadau arwain at asesiad heb unrhyw ddiagnosis o salwch meddwl. Gallai ffigyrau gyfeirio at alwadau unigol gan un person, neu sawl galwad gan un person neu sawl galwad ynghylch un person. Gellir dod o hyd i ragor o esboniadau yn yr Adolygiad Cenedlaethol hwn.

Rhagair

Pleser yw cyhoeddi'r Adolygiad Cenedlaethol hwn ar ddefnydd o wasanaethau brys gan bobl mewn argyfwng sydd â phryderon iechyd meddwl a/neu lesiant. Canfu'r Adolygiad fod pob gwasanaeth yn ymateb i anghenion pobl mewn argyfwng, mewn modd sy'n cael ei lywio gan ddealltwriaeth eu sefydliad eu hunain o beth mae 'gwasanaethau gofal mewn argyfwng' yn ei olygu. Mae angen i ni sicrhau bod cynllunio a darparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng yn fwy cydgysylltiedig a chydlynol ar draws ystod o wasanaethau'r sector cyhoeddus, a bod y defnydd o adnoddau ac arbenigedd wedi'i dargedu'n well i fodloni anghenion pobl.

Mae'r Adolygiad wedi amlygu lle mae bylchau yn y data a'r dystiolaeth, ac mae'n pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar ddull system gyfan i gynllunio a darparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng. Canfu'r Adolygiad hefyd nad yw problemau a ystyrir yn 'broblem iechyd meddwl' bob amser yn arwydd o salwch meddwl, a bod rhai pobl yn canfod eu hunain mewn argyfwng o ganlyniad i broblemau cymdeithasol neu lesiant.

Mae'r Adolygiad yn amlygu pa mor anodd yw cynllunio a darparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng ar draws aml-asiantaethau, a sut nad yw achosion yn ymwneud â phroblemau iechyd yn unig, ond hefyd â phroblemau megis dryswch, meddwdod, unigrwydd, dyled a digartrefedd ymhlith nifer o rai eraill.

Er y bydd yna bob amser bobl y mae angen gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol arnynt, mae llawer un arall y mae angen mynediad at ystod o gymorth, cyngor a gwasanaethau cefnogi arnynt, yn cynnwys pobl y mae angen cymorth y tu allan i oriau arnynt. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym yr ymateb priodol yng Nghymru i ddelio â'r ystod o broblemau iechyd a lesiant drwy agenda ataliol. Mae'r pandemig presennol a'i effaith ddilynol ar lesiant yn atgyfnerthu'r angen hwn.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Shane Mills a phob un o'r cyfranogwyr eraill am eu gwaith ar gynhyrchu'r adroddiad hwn. Rwy'n gwerthfawrogi'r heriau a wynebwyd wrth gwblhau'r Adolygiad a chynhyrchu'r adroddiad yn ystod pandemig byd-eang.

Bydd yr Adolygiad hwn yn helpu i bennu'r cyfeiriad ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau gofal mewn argyfwng o ansawdd uchel yn cael eu cynllunio a'u darparu ledled Cymru dros y degawd nesaf.

Emrys

EMRYS ELIAS- CADEIRYDD,

Y GRŴP CONCORDAT GOFAL MEWN ARGYFWNG CENEDLAETHOL AC

IS-GADEIRYDD BWRDD IECHYD ANEURIN BEVAN

RHAN A

CEFNDIR A METHODOLEG

Cynnwys

1.	CEFNDIR.....	8
2.	CWMPAS.....	8
3.	METHODOLEG.....	8
3.1	GRŴP CYFEIRIO ARBENIGOL.....	9
3.2	CASGLU DATA.....	9
4.	DIFFINIO PRYDERON IECHYD MEDDWL A LLESIANT.....	10
5.	TROSOLWG O 'ARGYFWNG'.....	10
6.	CONCORDAT GOFAL MEWN ARGYFWNG.....	11

'[EGWYDDOR GRAIDD YW] SICRHOU DATA MWY YSTYRLON O ANSAWDD GWELL'

**DATGANIAD GAN: LYWODRAETH CYMRU A PHARTNERIAID
CONCORDAT GOFAL MEWN ARGYFWNG IECHYD MEDDWL (2015)**

1. Cefndir

Ym mis Mai 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru drwy'r Grŵp Concordat Gofal Mewn Argyfwng Cenedlaethol, y Cyfarwyddwr Ansawdd ac Iechyd Meddwl/Anabledau Dysgu yn Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru i ymgymryd ag Adolygiad Cenedlaethol er mwyn cael mwy o ddealltwriaeth o'r materion sy'n arwain y cyhoedd at ddefnyddio'r gwasanaethau brys pan maent yn profi pryderon iechyd meddwl a/neu lesiant, a gyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'yr Adolygiad'.

Mae'r Adolygiad yn cefnogi nod Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2019–2022 fod 'canlyniadau yn cael eu gwella i bobl mewn argyfwng'. Bwriadwyd cyhoeddi'r Adolygiad yn wreiddiol ym mis Mai 2020, ond fe'i gohiriwyd o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

2. Cwmpas

Ymhlith y gwasanaethau o fewn cwmpas yr Adolygiad oedd y rheiny sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd mewn argyfwng, megis, yr heddlu, gwasanaethau tân ac ambiwlans ac adrannau achosion brys. Ni chafodd gwasanaethau y mae angen atgyfeiriad gan weithiwr proffesiynol arall arnynt megis gwasanaethau argyfwng iechyd

meddwl y GIG, gwasanaethau cyswllt cyfiawnder troseddol, rhwydweithiau mynychwyr aml a gwasanaethau cyswllt seiciatrig eu cynnwys. Eithriwyd gwasanaethau cymorth a ddarperir gan elusennau, grwpiau cymorth a llinellau cymorth gan nad ydynt yn wasanaethau cyhoeddus statudol, er y cydnabuwyd eu rôl allweddol wrth gefnogi pobl mewn argyfwng.

3. Methodoleg

Er mwyn sicrhau bod yr Adolygiad ar sail tystiolaeth, wedi'i lywio gan ddata, yn ymwybodol o brofiadau personol ac yn cymryd i ystyriaeth arbenigedd a gwybodaeth, cynigiwyd y canlynol:

- Grŵp Cyfeirio Arbenigol,
- Partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd at ddibenion ymchwil a dadansoddi data,
- Comisiwn i Picker Europe ymgymryd ag arolwg cynrychiadol o ganfyddiad a dealltwriaeth y boblogaeth,
- Cywaith â Mind, elusen iechyd meddwl, i ddeall barn pobl â phrofiadau personol sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.

Yn anffodus, achosodd yr amhariad ar yr Adolygiad o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws oedi wrth orffen a chyhoeddi'r arolygon o'r boblogaeth a phrofiadau personol.

3.1 Grŵp Cyfeirio Arbenigol

Sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol i:

- Lywio'r dull gweithredu ar gyfer yr Adolygiad Cenedlaethol,
- Darparu cyngor arbenigol ar faterion allweddol,
- Amlygu arferion perthnasol.

Rhodddwyd gwahoddiad i randdeiliaid allweddol fod yn rhan o'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol o feysydd megis grwpiau elusennol, aelodau'r concordat gofal mewn argyfwng, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, Uned Gyflawni'r GIG, Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol y GIG, gwasanaeth GIG 111, gwasanaethau tân ac achub, gwylwyr y glannau, yr heddlu a gwasanaethau ambiwlans. Ceir manylion am aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Arbenigol yn [Atodiad 1](#).

3.2. Casglu Data

Daw'r data a gyflwynir yn yr Adolygiad o ystod o ffynonellau a dyma'r data diweddaraf ar gael, er mewn nifer cyfyngedig o achosion, gall fod yn rhai blynyddoedd oed ac nid yn adlewyrchiad o unrhyw gynnydd neu newid mewn galw. Roedd yr holl ddata a gasglwyd fel rhan o'r Adolygiad yn ymwneud â gwybodaeth nad yw'n bersonol-adnabyddadwy yn unig. Ni ellir archwilio rhai agweddau ar fynediad at wasanaethau brys megis ethnigrwydd, amddifadedd, daearyddiaeth ac epidemioleg yn yr Adolygiad hwn o ganlyniad i gwmpas y data ar gael neu a gasglwyd.

Mae'r data a ddangosir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn yr Adolygiad yn ymwneud ag 'iechyd meddwl' fel y diffiniwyd gan y gwasanaeth penodol hwnnw ac mae'n bosib

nad yw'n adlewyrchu nifer y diagnosis clinigol o salwch meddwl. O ganlyniad i gymhlethdod y materion dan sylw a chyfyngiadau'r wybodaeth a gasglwyd, efallai nad yw'r data a gyflwynir yn yr Adolygiad yn adnabod pob achos neu alwad yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, neu gall eu gorgynrychioli. Gallai ffigyrau wedi'u dosbarthu fel 'galwadau' yn yr Adolygiad gyfeirio at alwadau unigol gan un person, neu sawl galwad gan un person neu sawl galwad ynghylch un person. Mae'r data a ddefnyddir yn yr Adolygiad ac wedi'i gyfeirnoddi yn wybodaeth gyhoeddus, gofynnwyd am ddata heb ei gyfeirnoddi fel rhan o'r Adolygiad a rhaid ei dderbyn fel data nad yw wedi'i ddilysu. Mae rhai canrannau wedi'u talgrynnu ac felly efallai na fyddant yn adio i 100%.

Mae gwasanaethau brys gwahanol yn defnyddio methodolegau gwahanol i feintioli ac asesu galwadau iechyd meddwl neu lesiant. I ddeall a phennu cwmpas galw ar draws gwasanaethau gwahanol, datblygwyd dull casglu data unigryw i sicrhau dull yr un fath o asesu galwadau ar draws gwasanaethau. Casglwyd y data dros gyfnod o dri mis o 1 Rhagfyr 2019 i 29 Chwefror 2020.

O ganlyniad i natur y cysylltu a'r modd y cofnodir gan rai gwasanaethau argyfwng cyhoeddus a'r gallu i integreiddio'r broses casglu data yng ngweithrediad y gwasanaeth, cynhaliwyd y gwaith casglu data unigryw gan bedwar heddlu Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a gwasanaethau 'ICAN' GIG Gogledd Cymru. Bydd pob un o'r gwasanaethau hyn yn cael eu trafod yn yr Adolygiad.

Datblygwyd ffurflen casglu data unigryw a thaflen esboniadol ar gyfer yr Adolygiad, dyluniwyd y ffurflen casglu data hon yn benodol fel taflen A5 un ochrog, er mwyn sicrhau y gallai trinwyr galwadau ei chwblhau'n gyflym ac na fyddai'n oedi unrhyw ofyniad i anfon cerbyd brys neu ddargyfeirio'r alwad i wasanaeth priodol cyn gynted â phosib. Roedd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol yn gyfrifol am arwain y gwaith o ddatblygu'r ffurflen casglu data a drafftio'r daflen esboniadol, gellir dod o hyd i atgynhyrchiad o'r dogfennau hyn yn [Atodiad 2](#).

Troswyd y daflen casglu data gan rai heddluoedd i alluogi ei defnyddio ar systemau heddlu mewnol er roedd y data a gasglwyd yr un fath. Mae gwasanaethau ICAN yn gweld pobl wyneb yn wyneb ond am resymau symlrwydd, maent wedi'u dosbarthu fel 'galwadau'. Er y defnyddiwyd dull wedi'i safoni ar gyfer casglu data ac y cynhyrwyd taflen esboniadol, ni ellir dileu dehongliad unigol gan drinwyr galwadau yn llwyr.

4. Diffinio Pryderon Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae 'iechyd meddwl' a 'llesiant' yn dermau eang. Gall iechyd meddwl yn aml gyfeirio at gyflwr meddwl cadarnhaol ac mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ei ddiffinio fel 'cyflwr o lesiant lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei b/photensial, gallu ymdopi gyda straen arferol bywyd, gweithio'n rhagweithiol a gallu gwneud cyfraniad i'w g/chymuned'². Efallai na fydd y term 'iechyd meddwl', fel y defnyddir gan rai gwasanaethau

cyhoeddus, yn ymwneud â llesiant, neu ddiagnosis o iechyd meddwl, ond unrhyw fater yn ymwneud â chyflwr meddyliol neu emosiynol person. Gall ehangder yr ystyr hwn achosi camddealltwriaeth ac o bryd i'w gilydd, anghytgord rhwng gwasanaethau brys a gwasanaethau iechyd meddwl y GIG, gan y gall diagnosis neu fodloni meini prawf penodol fod yn ofynnol i gael mynediad at ofal ar gyfer yr olaf.

At ddiben yr Adolygiad hwn, 'iechyd meddwl' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw achos, a adroddir gan alwyr, i fod yn gysylltiedig yn bennaf ag anhwylder neu gyflwr meddwl. Er mwyn adlewyrchu'r mathau o iaith a ddefnyddir yn aml gan alwyr, mae iechyd meddwl wedi'i rannu ymhellach yn 'ysbryd isel/iselder', 'gorbryder, dementia ac afiechydon meddwl eraill', a all gynnwys cyflyrau megis sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol neu anhwylder personoliaeth.

'Pryderon llesiant' yw'r term a ddefnyddir o fewn yr Adolygiad i ddisgrifio unrhyw achos, a adroddir gan alwyr, i fod yn gysylltiedig yn bennaf â gofid emosiynol, amgylcheddol, cymdeithasol neu'n ymwneud â chyffuriau neu alcohol sy'n effeithio ar lesiant cyffredinol person. Dylid nodi bod pryderon iechyd meddwl a llesiant yn cyd-ddigwydd i raddau helaeth.

5. Trosolwg o 'Argyfwng'

At ddiben yr Adolygiad, mae argyfwng iechyd meddwl a/neu lesiant yn disgrifio unrhyw sefyllfa lle mae digwyddiad yn ymwneud â diogelwch y

cyhoedd neu lesiant unigol yn ysgogi galwad i'r gwasanaethau brys ac yn gysylltiedig ag iechyd meddwl neu lesiant person. Gall y person fod mewn perygl uniongyrchol o niweidio ei hun neu eraill, mewn perygl uniongyrchol o fethu â gofalu amdano ei hun yn ddigonol neu gael ei ofalu amdano o fewn strwythurau cymorth presennol neu weithredu'n ddiogel o fewn y gymuned, a lle mae sbardun neu fregusrwydd a adnabuwyd sy'n gysylltiedig â'i ddiagnosis o gyflwr iechyd meddwl, neu sefyllfa gymdeithasol, emosiynol neu glinigol arall.

Gall adnabod argyfyngau iechyd meddwl a/neu lesiant fod yn her i drinwyr galwadau o ganlyniad i amrywiaeth y sefyllfaoedd a all ysgogi galwad i'r gwasanaethau brys. Gall presenoldeb argyfwng iechyd meddwl neu lesiant fod yn amlwg ar unwaith, er enghraifft adroddiad am berson gyda dementia ar goll o'i gartref neu, fel arall gall galwyr adrodd amrywiaeth eang o broblemau amgylcheddol neu gymdeithasol lle nad yw pryder iechyd meddwl neu lesiant sylfaenol yn amlwg ar unwaith.

Mae pobl yn amrywio'n fawr yn eu hymatebion i ofid personol a digwyddiadau bywyd heriol. Efallai y bydd pobl yn troi at deulu neu ffrindiau am gymorth emosiynol, tra bydd eraill, efallai, yn canfod eu hunain yn defnyddio strategaethau a fydd yn y tymor hir, yn niweidiol, megis camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, gweithredoedd hunanladdol neu hunan-niweidio, dicter neu enciliad cymdeithasol.

Mae cydnabod problemau cymdeithasol diriaethol, eu gwahaniaethu oddi wrth yr effaith emosiynol a seicolegol a gânt ar berson a sut maent yn rhyngweithio ag unrhyw salwch meddwl sylfaenol yn gymhleth. Gan adlewyrchu'r cymhlethdod hwn, mae'r amrywiaeth o wasanaethau ar gael i gefnogi pobl sy'n dioddef argyfyngau yn eang ac amlwynebog. Mae mynediad pobl at, a'u llwybrau drwy wasanaethau cymorth iechyd meddwl a lesiant yn unigol iawn a gallant newid dros amser.

Adroddir yn gyffredin fod grwpiau neu gymunedau amrywiol yn profi rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd meddwl. Er enghraifft plant³, oedolion ifanc⁴, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig⁵, unigolion sy'n adnabod eu hunain yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol⁶, ceiswyr lloches a ffoaduriaid⁷, merched gyda phroblemau amenedigol⁸, dynion llai cyfoethog a chanol oed⁹, cyn-filwyr y lluoedd arfog¹⁰, pobl sydd ag anabledau deallusol¹¹ ac oedolion hŷn¹².

Mae rhwystrau a nodwyd ar draws yr astudiaethau a ddyfynnwyd uchod yn cynnwys yr anallu i adnabod neu dderbyn problemau iechyd meddwl, effaith rhwydweithiau cymdeithasol, amharodrwydd i drafod gofid seicolegol a cheisio cymorth, hunaniaeth ddiwylliannol, canfyddiad negyddol o, a stigma cymdeithasol yn erbyn, salwch meddwl, ffactorau ariannol, rhwystrau iaith, cyfathrebu gwael rhwng defnyddwyr gwasanaeth a gwasanaethau a diffyg gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau.

Dim ond drwy atgyfeiriad y mae nifer o wasanaethau iechyd meddwl neu lesiant ar gael; mae eraill yn annog hunanatgyfeirio. Mae rhai gwasanaethau yn gweithredu 9am–5pm dydd Llun i ddydd Gwener, mae eraill yn gweithredu'r tu allan i'r 'oriau swyddfa arferol' hyn. Mae apwyntiad yn ofynnol ar gyfer rhai gwasanaethau, mae eraill yn gweithredu cyfleusterau 'galw heibio', rhai yn cynnig llinellau cymorth, ac eraill cymorth ar-lein. Gall gwybod pwy i gysylltu â nhw ynghylch pryderon iechyd meddwl neu lesiant, pa wasanaethau sydd ar gael, sut, pryd a lle i gysylltu â nhw fod yn anodd i rywun sydd mewn argyfwng neu mae ei lesiant mewn perygl, ei ddarganfod.

Mae gwasanaethau brys megis yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans yn gyfarwydd i bawb, yn gweithredu pedair awr ar hugain y dydd, yn ymateb yn gyflym ac yn meddu ar rifau cyswllt cofiadwy, gan eu gwneud yn bwynt cyswllt cyntaf amlwg i nifer o bobl mewn argyfwng, neu i rywun sy'n bryderus am lesiant person arall. Fodd bynnag, er bod gan y gwasanaethau brys hyn yn draddodiadol gylch gorchwyl eang o ran ymateb i argyfyngau, nid ydynt wedi'u dylunio'n benodol i fod yn wasanaethau brysbennu neu ofal brys iechyd meddwl a all arwain at ddiffyg cyfatebiaeth rhwng disgwyliadau'r galwr, darpariaeth gwasanaethau a gwybodaeth a sgiliau staff.

4.6. Concordat Gofal mewn Argyfwng

Cyhoeddwyd y Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn 2015¹³. Mae'r Concordat yn amlinellu'r ffyrdd y dylai tri ar hugain o asiantaethau partner gydweithio i ddarparu ymateb gwasanaeth o safon uchel i bobl mewn argyfwng. Mae'r partneriaid hyn, yn

cynnwys Llywodraeth Cymru, yr Heddlu, GIG, gwasanaethau cyfiawnder a chymdeithasol, y trydydd sector, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a Nyrsys ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi nodi gweledigaeth ar gyfer gwella gwasanaethau argyfwng iechyd meddwl a sefydlu 'pedair egwyddor graidd', sef:

- Sicrhau bod gan bobl fynediad effeithiol at gymorth cyn cyrraedd sefyllfa o argyfwng,
- Sicrhau bod gan bobl fynediad brys at ofal argyfwng pan fo angen hynny arnynt,
- Sicrhau bod pobl yn derbyn triniaeth o ansawdd gwell ac yn cael budd therapiwtig o ofal mewn argyfwng,
- Sicrhau bod pobl yn gwella, yn aros yn iach ac yn derbyn cymorth ar ôl argyfwng.

Ychwanegwyd dwy egwyddor graidd arall yn ddiweddarach gyda lansiad 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol' y Concordat¹⁴. Yr egwyddorion hyn oedd:

- Sicrhau data mwy ystyrion o ansawdd gwell, gyda dadansoddiadau effeithiol er mwyn deall yn well a yw anghenion pobl yn cael eu diwallu'n amserol ac yn effeithiol
- Cynnal a gwella cyfathrebu a phartneriaethau rhwng yr holl asiantaethau/sefydliadau, gan annog perchnogaeth, a sicrhau bod pobl yn derbyn gofal, cymorth a thriniaeth ddi-dor a chydgyssylltiedig

Mae'r Concordat a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar ddiogelwch ac anghenion y person. Fel rhan o ymrwymiad y Concordat i wella'n barhaus ddealltwriaeth o argyfwng a'i effaith ar yr unigolyn a gwasanaethau, y comisiynwyd yr Adolygiad.



RHAN B

GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cynnwys

7.	GWASANAETHAU CYHOEDDUS.....	16
8.	Y TRYDYDD SECTOR.....	16
9.	GWASANAETHAU IECHYD - TROSOLWG.....	18
9.1.	GOFAL SYLFAENOL.....	18
9.2.	GWASANAETHAU CYMUNEDOL.....	19
9.3.	GWASANAETHAU AMBIWLANS.....	19
9.4.	GWASANAETH GIG 111 A GALW IECHYD CYMRU.....	20
9.5.	ADRANNAU ACHOSION BRYD.....	21
9.6.	GOFAL CYMDEITHASOL.....	22
10.	YR HEDDLU.....	23
11.	TÂN AC ACHUB.....	25

'DYLAI POBL SYDD MEWN GOFID MEDDWL GAEL EU CADW'N DDIOGEL A DOD O HYD I'R CYMORTH SYDD EU HANGEN ARNYNT GAN BA BYNNAG FFYNHONNELL'

**DATGANIAD GAN: LYWODRAETH CYMRU A PHARTNERIAID
CONCORDAT GOFAL MEWN ARGYFWNG IECHYD MEDDWL (2015)**

7. Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn y Deyrnas Unedig, mae'r term 'gwasanaethau cyhoeddus' yn cwmpasu ystod eang o weithrediadau a ddarperir neu a gomisiynir gan y llywodraeth neu awdurdod lleol, megis yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, asiantaethau gweinyddol, adrannau polisi, gofal iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chasglu sbwriel. Mae'r term 'gwasanaethau brys' fel rheol yn cyfeirio at yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, gwasanaethau meddygol brys, achub mynydd a gwylwyr y glannau.

Lansiwyd y rhif mewn argyfwng '999' ym 1937, ar argymhelliad pwyllgor y llywodraeth, ar ôl tân angheuol mewn meddygfa meddyg yn Llundain. Mae'r rhif '999' ar gyfer cysylltu â'r heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, gwylwyr y glannau neu'r gwasanaeth ambiwlans pan mae'r galwr yn credu bod y mater yn argyfwng. Mae dulliau eraill o gysylltu â'r heddlu, megis y rhif '101', pan nad yw'r galwr yn credu nad oes angen ymateb heddlu brys arnynt. Ar gyfer pryderon meddygol brys, nad ydynt yn argyfwng, mae'r rhif ffôn GIG '111' yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

Ar draws y DU derbyniodd gwasanaethau oddeutu 33 miliwn o alwadau '999' yn 2019, gofynnodd 49% o'r galwadau hyn am gymorth yr heddlu, 47% am y gwasanaeth ambiwlans, 4% am y gwasanaeth tân ac 1% am wylwyr y glannau. Mewn arolwg o oedolion yng Nghymru, dywedodd 65% nad oeddent yn gwybod y dylid ffonio rhif ffôn '101' yr heddlu ar gyfer mater nad yw'n argyfwng ac nid oedd 48% o ferched a 72% o ddynion yn gwybod y dylid ffonio GIG 111 ar gyfer

'mater meddygol nad yw'n argyfwng'¹⁵. Bob dydd mae pobl gyda phryderon iechyd meddwl neu lesiant yn cysylltu â'r gwasanaethau brys i ofyn am gyngor neu gymorth brys. Mae'r gwasanaethau hyn yn adrodd niferoedd cynyddol o unigolion â phroblemau 'iechyd meddwl' yn defnyddio eu gwasanaethau, er mae'r un gwasanaethau yn adrodd yn aml 'diffyg dealltwriaeth' neu ddiffyg data, o ran graddfa a natur eu 'galw iechyd meddwl'^{16,17}. Awgryma astudiaethau fod cyfran o alwadau yn gysylltiedig ag iechyd meddwl i wasanaethau brys yn ganlyniad diffyg gwasanaethau amgen, yn benodol y tu allan i oriau swyddfa arferol¹⁸. Mae gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ymwybodol o'r pwysau hwn, er maent yn cydnabod bod yr hyn sy'n ysgogi galw yn gymhleth ac amlwynebog. Mewn arolwg yn 2019, roedd arweinwyr iechyd meddwl y GIG yn ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol, megis newidiadau i'r system llesiant, toriadau i ddarpariaeth gofal cymdeithasol lleol, unigrwydd a phroblemau tai yn ffactorau allweddol yn hybu cynnydd mewn pobl yn ceisio cymorth gan wasanaethau¹⁹.

8. Y Trydydd Sector

Mae'r 'trydydd sector' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio ystod o sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau'r sector cyhoeddus na'r sector preifat. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac nid er elw megis elusennau, cymdeithasau, grwpiau hunangymorth, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol.²⁰

Yng Nghymru, mae nifer o'r sefydliadau trydydd sector hyn yn aelodau o Gynghrair Iechyd Meddwl Cymru, sef y 'llais ar y cyd' ym 'maes iechyd meddwl' ers dros bump ar hugain o flynyddoedd²¹. Mae nifer o aelodau'r Gynghrair yn gweithio'n uniongyrchol â phobl mewn argyfwng, neu â phobl sy'n ceisio cymorth neu gyngor, yn ogystal â darparu gwasanaethau gofal, cynnal ymchwil ac arolygon, gweithio â theuluoedd a gofaluwr ac eirioli ar ran pobl sydd â 'phrofiad personol'.

Cafnu astudiaeth yn 2019 fod cymhwysra ar gyfer rhai gwasanaethau'r trydydd sector yng Nghymru, yn ddibynnol ar gymhwysra ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y GIG, ac 'nid yw hyn yn gyson â'r agenda ataliol neu ymyrraeth gynnar'²².

Adnabu astudiaeth ddiweddar yn archwilio gwerth asiantaethau'r trydydd sector yn cefnogi pobl mewn argyfwng 'ystod eang o weithgareddau' a ddarparodd ymateb ar unwaith ac a gyfrannodd at 'atal ac adfer'. Amlygodd yr astudiaeth fod y gweithgareddau hyn yn 'ddeniadol a derbyniol' i unigolion mewn argyfwng ac y gallant, o bosib, fynd i'r afael â'r rhyngweithiadau anodd rhwng cyflyrau iechyd meddwl, anghydraddoldeb ac amodau economaidd-gymdeithasol'. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad yw 'dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth' o gyfraniad y trydydd sector i ofal mewn argyfwng 'wedi'i wireddu'n llawn'²³.

Mae rhai sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru, gan weithio ar y cyd â Byrddau Iechyd, wedi sefydlu 'tai argyfwng' i ddarparu llety tymor byr sydd â staff 24 awr fel opsiwn amgen i fynd i'r ysbyty a darparu 'dull cyfannol

o hybu adferiad'²⁴. Dangoswyd bod tai argyfwng yn effeithiol yn lleihau derbyniadau i'r ysbyty²⁵ ac er nad oedd 'gweithrediad' wedi 'cynyddu'n sylweddol', roedd hunanhyder, rhwydweithio cymdeithasol a boddhad i gyd wedi gwella i'r rheiny y gofaluwr amdanynt mewn tŷ argyfwng²⁶. Dangoswyd bod tai argyfwng yn llai buddiol mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau triniaeth gartref y GIG yn 'gwbl weithredol'²⁷.

Mewn ardaloedd eraill o Gymru mae'r trydydd sector wedi bod yn bartneriaid, gyda'r GIG a'r heddlu, yn sefydlu 'noddfeydd' neu 'chaffis argyfwng'²⁸, gan gynnig cymorth i bobl mewn perygl o'u 'hiechyd meddwl yn dirywio' pan mae 'gwasanaethau eraill ar gau'²⁹. Mae'r 'noddfeydd' hyn hefyd yn cynorthwyo pobl gyda 'straen, gorbryder, ysbryd isel a phryderon ariannol'³⁰. Canfu astudiaeth o un caffi argyfwng fod y caffi yn 'atal argyfyngau' ac yn osgoi'r angen i bobl gysylltu â'r gwasanaethau cyhoeddus³¹. Mewn rhannau o'r DU, mae'r GIG yn ddiweddar wedi cyhoeddi cyllid a chefnogaeth i gaffis argyfwng, noddfeydd a thai argyfwng fel rhan o gynllun hirdymor i wella gofal mewn argyfwng³².

Mae astudiaethau wedi argymhell y gall ystod o opsiynau megis tai argyfwng, noddfeydd, teuluoedd sy'n lletya a gwasanaethau cefnogaeth gan gymheiriaid hwyluso dewis defnyddwyr gwasanaeth, diwallu amrywiaeth o anghenion, a helpu timau argyfwng iechyd meddwl y GIG i weithio'n 'fwy effeithiol'³³.

Mae dwsinau o linellau cymorth ar gael i ddinasyddion yng Nghymru. Mae rhai o'r llinellau cymorth hyn yn cynnig cyngor ar gyfer ystod o

broblemau iechyd meddwl neu lesiant megis y rheiny a ddarperir gan Mind Cymru neu Hafal. Mae rhai llinellau cymorth yn darparu cyngor i'r rheiny sydd â phroblemau mwy penodol megis Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru, Cymdeithas Alzheimer, Anxiety UK neu BEAT (anhwylderau bwyta). Gall rhai o'r llinellau cymorth hyn gael defnydd uchel iawn, caiff un enghraifft o'r fath ei rhedeg gan y Samariaid, sy'n cael ei defnyddio'n aml gan bobl gyda meddyliau am hunanladdiad neu hunan-niweidio, a atebodd mewn un flwyddyn 3.6 miliwn o alwadau o bob cwr o'r DU³⁴. Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector hefyd yn cynnig cymorth dros y ffôn drwy neges destun neu'n cynnal gwasanaethau cymorth ar-lein.

Hefyd ar gael yng Nghymru mae'r 'Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol', sy'n cael ei thalfyrnu'n aml i C.A.L.L., mae'r gwasanaeth cymorth hwn wedi ehangu i fod yn wasanaeth cenedlaethol, ers dechrau ym 1995 yng ngogledd Cymru, ac ers 2001, caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor dros y ffôn, cyfleuster cyfeirio a chymorth ar-lein ac yn 2019, derbyniodd 14,733 o alwadau, 3771 o negeseuon testun a 1778 o negeseuon e-bost.

9. Gwasanaethau Iechyd - Trosolwg

Er bod yr adrannau canlynol o'r Adolygiad yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny ar y GIG sy'n cefnogi pobl â phryderon iechyd meddwl a lesiant, nid yw bob amser yn bosib gwahanu'r materion hyn oddi wrth iechyd corfforol. Mae astudiaethau wedi dangos bod cael salwch corfforol hirdymor yn 'dyblu' tebygolrwydd person o gael 'anhawster iechyd meddwl' a bod problemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd yn eu tro'n gwaethygu salwch corfforol³⁵. Mae'n haws cyflawni canlyniad cadarnhaol i unigolion â salwch meddwl a chorfforol lle mae gweithwyr proffesiynol o'r ddau faes yn cydweithio'n ddi-dor.

9.1 Gofal Sylfaenol

Mae astudiaeth wedi nodi bod '90%' o oedolion â phroblemau iechyd meddwl yn cael eu cefnogi yn y sector gofal sylfaenol. Dywedodd yr astudiaeth hon hefyd fod rhai Ymarferwyr Cyffredinol yn teimlo bod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn 'broblem' a bod 'trothwyon cymhwysra' ar gyfer y gwasanaethau hyn yn gadael nifer o unigolion, yn cynnwys y rheiny ag anghenion 'cymhleth a risg uchel', i gael eu rheoli yn y sector gofal sylfaenol³⁶. Dangoswyd bod gan y rheiny sy'n mynd i weld eu hymarferydd cyffredinol yn fwy aml gyfraddau uwch o gyflyrau iechyd meddwl, yn cynnwys iselder, gorbryder ac anhwylderau somatig³⁷.

Un o'r bylchau mwyaf mewn darpariaeth a adroddir gan ymarferwyr cyffredinol yw'r nifer cynyddol o bobl nad ydynt yn ffitio i lwybr atgyfeirio clir oherwydd cymhlethdod eu hanghenion. Cymhlethdod cynyddol yw un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am y 'llwyth gwaith cynyddol' mewn ymarfer cyffredinol³⁸ ac mae rhan o hyn yn ymwneud â lefelau cynyddol o 'gydafiechedd' y mae iechyd meddwl yn gydran allweddol ohono³⁹. Mae hefyd amrywiaeth eang o ffactorau cymdeithasol - megis tlodi, unigrwydd cymdeithasol a thrawma - a all ychwanegu at gymhlethdod person yn ceisio cymorth gan wasanaethau gofal sylfaenol⁴⁰.

Yng Nghymru, cefnogir ymarferwyr cyffredinol gan 'Wasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol' a ddarperir gan bob Bwrdd Iechyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn ymgymryd ag asesiadau, darparu ymyriadau seicolegol tymor byr, ac os yw'n angenrheidiol, gallant atgyfeirio pobl at wahanol rannau o system iechyd meddwl y GIG. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn darparu gwybodaeth a chngor i unigolion a gofalwyr yn ogystal â'u hatgyfeirio at ffynonellau cymorth eraill, yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector. Yn 2019, roedd 78,345 o atgyfeiriadau at y gwasanaethau hyn ledled Cymru⁴¹.

Er mwyn cefnogi gofal sylfaenol, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwasanaethau'r trydydd sector⁴² a darpariaeth ar-lein⁴³ ac mae nifer o Fyrddau Iechyd yn gweithredu gwasanaethau ychwanegol megis cwnsela⁴⁴ neu'n comisiynu gweithgarwch ychwanegol gan bartneriaid y trydydd sector.

9.2 Gwasanaethau Cymunedol

Gwasanaethir pob ardal o Gymru gan 'Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol' sy'n gofalu am unigolion sy'n dioddef salwch meddwl parhaus na ellir ei reoli gan wasanaethau gofal sylfaenol neu'r rheiny y mae angen ymyriadau arbenigol arnynt. Ym mis Rhagfyr 2019, roedd 22,690 o bobl yng Nghymru⁴⁵ yn derbyn cymorth iechyd meddwl gofal eilaidd ac yn ystod yr un cyfnod â'r cyfnod casglu data unigryw, 1 Rhagfyr 2019 i 29 Chwefror 2020, derbyniodd wasanaethau iechyd meddwl oedolion 9,791 o atgyfeiriadau⁴⁶.

Canfu adolygiad diweddar o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol yng Nghymru sawl maes o arfer da yng Nghymru ond hefyd 'amrywiaeth' mewn mynediad at ofal mewn argyfwng. Canfu'r Adolygiad hwn nad oedd 51% o bobl yn derbyn gofal gan y gwasanaethau hyn yn gwybod pwy i gysylltu â nhw mewn argyfwng 'y tu allan i oriau' ac roedd 57% yn 'anfodlon' â'r 'cymorth' a gynnigir 'y tu allan i oriau'. Argymhellodd yr Adolygiad fod gwasanaethau cymunedol yn cryfhau 'cysylltiadau' â gwasanaethau eraill megis timau argyfwng a 'thimau camddefnyddio alcohol a chyffuriau'⁴⁷.

Yng Nghymru, mae 'Gwasanaethau Argyfwng a Thriniaeth Gartref y GIG' ar gael ym mhob ardal Bwrdd Iechyd. Bydd y gwasanaethau hyn yn ymateb i bobl mewn argyfwng ac yn darparu asesiad ac os yw'n angenrheidiol ymyriadau tymor byr. Mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn llwybrau atgyfeirio i wasanaethau'r heddlu ac ambiwlans er mae cryfder y llwybrau hyn yn amrywio.

Cynlluniwyd gwasanaethau argyfwng y GIG i fod ar gael 24 awr y dydd naill ai drwy wasanaeth 'craidd' neu ymateb 'ar alwad', ac i ddarparu ymyriadau sy'n cwmpasu 'anghenion cymdeithasol, ariannol, tai yn ogystal â thriniaeth' a darparu 'cymorth ac addysg i ofalwyr/teuluoedd lle bo'n briodol'⁴⁸. Yn 2018, roedd 19,269 o atgyfeiriadau at wasanaethau argyfwng a thriniaeth gartref y GIG yng Nghymru⁴⁹. Mae adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gan Uned Gyflawni GIG Cymru i effeithiolrwydd gwasanaethau argyfwng a chyswllt seiciatrig y GIG.

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymru yn llai o lawer na gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ac yn aml nid oes ganddynt y gwasanaethau argyfwng cyfwerth, yn enwedig gwasanaethau asesu gofal mewn gwely neu ddewisiadau amgen i fynd i'r ysbyty. Mae'r llwybrau i'r gwasanaethau hyn yn aml drwy wasanaethau iechyd pediatrig, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau achosion brys.

9.3 Gwasanaethau Ambiwllans

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yw'r sefydliad a gomisiynwyd yng Nghymru i ddarparu ymateb i unigolion sy'n cysylltu â 999, yn ogystal â GIG 111 a Galw Iechyd Cymru, a fydd yn cael sylw yn y paragraff dilynol. Mae'r gwasanaeth yn darparu ymateb brys neu mewn argyfwng i unigolion ag ystod o broblemau meddygol o fân anafiadau i afiechydon sy'n peryglu bywyd. Mae ymatebion yn cynnwys cefnogi neu atgyfeirio pobl dros y ffôn neu anfon ambiwlansys awyr neu ar olwynion i drin pobl yn y lleoliad neu eu cludo i'r ysbyty.

Mae'r systemau dosbarthu galwadau a ddefnyddir gan wasanaethau ambiwlans yn y DU wedi'u dylunio i flaenoriaethu galwadau yn ddiogel a chyflym, er mwyn adnabod materion sy'n peryglu bywyd a sicrhau bod y galwr yn cael yr ymateb

mwyaf priodol. Nid yw'r system hon wedi'i dylunio i ganiatáu ar gyfer asesiadau trylwyr a gall adnabod pryderon iechyd meddwl neu lesiant fod yn anodd dros alwad ffôn sydyn.

Mae astudiaethau wedi dangos bod iechyd meddwl yn cyfrannu'n sylweddol at y nifer o alwadau i'r gwasanaethau ambiwlans⁵⁰. Cynigir bod un ym mhob deg galwad fel 'amcangyfrif rhesymol' yn alwadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl fel cyfran o'r holl alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans. Mae astudiaethau wedi cynnig fel 'amcangyfrif rhesymol' bod un ym mhob deg galwad i'r gwasanaethau ambiwlans yn ymwneud ag iechyd meddwl, er y cydnabyddir bod mwy o waith yn ofynnol i adnabod y rheiny sydd â phryderon iechyd meddwl yn well^{51,52}. Atebodd Gwasanaeth Ambiwllans Cymru bron i 112,965 o alwadau '999' yn ystod tri mis cyntaf 2020⁵³ a dengys adroddiadau mewnol fod 'galw iechyd meddwl' yn cyfrif am rhwng 7% a 10% o alwadau, gydag oddeutu traean o alwadau yn arwain at gludiant i'r ysbyty neu adran achosion brys. Bydd cyfran o'r galw hwn yn briodol i'r gwasanaethau ambiwlans ei flaenoriaethu, trin neu gludo, megis gorddos neu'r rheiny ag anafiadau corfforol, ond bydd rhai galwadau yn briodol ar gyfer atgyfeiriad i wasanaethau gofal argyfwng iechyd meddwl, sylfaenol neu gymunedol neu asiantaethau cymorth neu gyngor eraill.

Mewn arolwg gan Wasanaethau Ambiwllans Cymru yn 2018 roedd staff yn teimlo bod ganddynt 'ddiffyg hyfforddiant' i allu delio â galwadau gan unigolion yn profi gofid meddyliol⁵⁴. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflogi arweinydd iechyd meddwl profiadol sy'n gweithio i roi'r gweithlu ambiwlans ar ben ffordd wrth adnabod a chefnogi iechyd meddwl. Canfu gwerthusiad o gynllun treialu nyrsys iechyd meddwl wedi'u lleoli mewn ystafell reoli ambiwlans fod hyder staff eraill wedi gwella a bod 'effaith gadarnhaol' ar ddarpariaeth gwasanaethau o safbwynt y claf a'r gwasanaeth⁵⁵, mae cynllun treialu tebyg yn cael ei werthuso yng Ngwasanaeth Ambiwllans Cymru.

9.4 Gwasanaeth GIG 111 a Galw Iechyd Cymru

Yng Nghymru, mae 'Galw Iechyd Cymru', sy'n darparu cymorth dros y ffôn ac ar-lein yn cael ei ddisodli gan y 'gwasanaeth GIG 111', sydd ar gael ar hyn o bryd ym mhump o'r ardaloedd bwrdd iechyd a bydd yn cael ei gyflwyno ledled y wlad yn y dyfodol agos. Datblygwyd y rhif 'GIG 111' at pan mae galwyr eisiau cymorth i faterion y credant sy'n frys ond nid ydynt yn argyfwng. Hefyd gall pobl ffonio GIG 111 pan maent yn ansicr ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw am gymorth meddygol neu os oes angen cyngor iechyd arnynt. Pan fydd pobl yn ffonio'r gwasanaeth GIG 111, byddant yn siarad â chynghorydd hyfforddedig, gyda chefnogaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a fydd ar ôl asesiad, yn cyfeirio'r alwad at y gwasanaeth neu'r cymorth mwyaf priodol neu, os yw'n angenrheidiol, trosglwyddo'r alwad i'r gwasanaethau brys.

Yng Nghymru, nid yw'r gwasanaeth GIG 111 wedi'i ddylunio i ddarparu cymorth iechyd meddwl arbenigol ar hyn o bryd ond, yn ystod tri mis cyntaf 2020, dosbarthwyd oddeutu 1% o'r 170,875 o alwadau a dderbyniwyd yn yr ardaloedd lle mae'r gwasanaeth GIG '111' ar gael, fel galwadau iechyd meddwl.

Mae rhannau o'r DU yn cynllunio i sicrhau mai'r gwasanaeth GIG 111 yw'r 'pwynt mynediad unigol ar gyfer gofal iechyd meddwl brys erbyn 2024'⁵⁶ ac mae sawl prosiect yn mynd rhagddo i ddeall effaith gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yng nghanolfannau rheoli GIG 111. Mae'r prosiectau hyn wedi'u dylunio i sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl a chorfforol, darparu cymorth iechyd meddwl arbenigol a chyfeirio galwyr at y GIG, gofal cymdeithasol neu asiantaethau neu grwpiau eraill a all fodloni eu hanghenion orau⁵⁷. Mae rhai o'r prosiectau hyn wedi cael eu cynnal mewn partneriaeth â'r heddlu, gan eu bod yn rhoi cyfleoedd i swyddogion heddlu geisio cyngor gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Dywedodd un Comisiynydd Heddlu a Throsedd, gan gyfeirio at fenter GIG 111 leol, y byddai gwella mynediad at

gymorth iechyd meddwl drwy GIG 111 yn lleihau gweithgarwch iechyd meddwl yr heddlu ac yn 'rhoi'r cymorth proffesiynol priodol i'r rheiny sydd fwyaf bregus y mae ei angen arnynt'⁵⁸. Canfu gwerthusiad o brosiectau pilot fod cael gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn rhan o'r gwasanaeth GIG 111 wedi arwain at '25% yn llai' o bobl angen mynd i adran achosion brys ar gyfer pryderon iechyd meddwl⁵⁹. Canfu gwerthusiad pilot arall, o'r bobl a gafodd eu blaenoriaethu gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol drwy wasanaeth GIG 111, roedd angen ymateb yr heddlu neu'r gwasanaeth ambiwlans ar 3%, roedd angen asesiad argyfwng wyneb yn wyneb ar 17%, a chafodd yr 80% arall eu cyfeirio at bartneriaid y trydydd sector, noddfeydd argyfwng neu at wasanaethau sylfaenol neu gymunedol.⁶⁰

9.5 Adrannau Achosion Brys

Mae astudiaethau wedi dangos bod pobl gyda salwch meddwl yn defnyddio mwy o ofal ysbyty heb ei gynllunio ar gyfer anghenion iechyd corfforol na'r boblogaeth gyffredinol⁶¹. Mae astudiaethau eraill wedi dangos mai dim ond un ym mhob pump o byliau o ofal ysbyty i unigolion â salwch meddwl oedd 'yn uniongyrchol ar gyfer anghenion iechyd meddwl' gyda phedwar ym mhob pump o byliau 'ar gyfer pryderon iechyd eraill'⁶². Er bod pobl sy'n mynychu adrannau achosion brys ar gyfer problemau iechyd meddwl yn cyfrif am gyfran fechan o'r cyfanswm mynychwyr o hyd, adroddwyd bod nifer y bobl yn mynychu wedi cynyddu '50%' rhwng 2012 a 2017⁶³. Mae'n anodd deall gwir alw achosion iechyd meddwl mewn adrannau achosion brys gan fod dilysrwydd data yn amrywio, mae categoreiddio yn eang ac efallai mai dim ond achosion lle'r oedd problem iechyd meddwl yn brif ddiagnosis y bydd data yn ei gynnwys a gallai hepgor problemau sylfaenol. Fel rhan o'r Adolygiad, ar gyfer yr un cyfnod â'r cyfnod casglu data unigryw, 1 Rhagfyr 2019 i 29 Chwefror 2020, dadansoddwyd data o ddeg adran achosion brys yng Nghymru. Ystyriwyd pob achos a gofnodwyd fel 'alcohol', 'cyffur anghyfreithlon',

'gwenwyno/gorddos' a 'seicolegol/seiciatrig' yn alw 'iechyd meddwl', er gall problemau eraill ddod o dan y categorïau hyn. Dangosodd y data fod galw 'iechyd meddwl' yn cyfrif am oddeutu 4459 o ymweliadau neu oddeutu 4 o'r holl ymweliadau, sydd yn unol ag astudiaethau eraill⁶⁴, er dylid ystyried y gyfran hon gyda'r heriau o ddeall galw a drafodwyd yn flaenorol yn yr Adolygiad.

O'r 4459 o fynychwyr, ni dderbyniodd 48% 'apwyntiad dilynol', cafodd 21% eu derbyn i'r ysbyty, cafodd 20% eu cyfeirio at ofal sylfaenol, derbyniodd 3% apwyntiad arall, gan wasanaethau iechyd meddwl, o bosib, rhyddhaodd 2% eu hunain o'r adran achosion brys ac roedd 6% yn anhysbys. Gallai'r nifer a ryddhawyd heb apwyntiad dilynol nodi cyfle i ddarparu gwasanaeth cyfeirio a chyngor. Mae rhai pobl yn mynychu'r adran achosion brys yn rheolaidd ac mae rhai asiantaethau yn eu galw yn 'mynychwyr aml' ac eraill yn eu galw yn unigolion 'dwyster uchel'. Mae gan y bobl hyn ystod eang o broblemau, ond mae un astudiaeth yn adrodd bod gan '65% symptomau iechyd meddwl' a '15% broblemau alcohol mawr'⁶⁵. Cydnabyddir bod angen trin y cleifion hyn â dealltwriaeth a thosturi a'u cefnogi drwy weithio amlasiantaethol cydweithredol. Yng Nghymru, mae 'Rhwydwaith Mynychwyr Aml Adrannau Achosion Brys Cymru' yn ei le i weithio ar draws asiantaethau ac, mewn un ysbyty yn unig, rhwng 2017 a 2019, derbyniodd y gwasanaeth hwn 758 o atgyfeiriadau⁶⁶.

Cefnogir pob Ysbyty Cyffredinol yng Nghymru gan 'wasanaeth cyswllt seiciatrig', mae'r gwasanaethau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer pobl sy'n mynychu adran achosion brys gydag anghenion gofal iechyd meddwl brys neu gleifion sy'n cael eu trin ar wardiau meddygol ar gyfer salwch corfforol a salwch meddwl sy'n cyd-ddigwydd⁶⁷. Mae'r gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn y gwasanaethau hyn yn gweithio ag unigolion sy'n mynychu adrannau achosion brys i sicrhau asesiad, triniaeth ac atgyfeiriad ymlaen neu, os yw'n angenrheidiol, i drefnu eu derbyn i'r ysbyty. Yng

Nghymru, mae pob un o'r timau hyn yn delio ag oddeutu 50 o atgyfeiriadau'r wythnos.

Ymarfer arloesol yng Nghymru yw'r gwasanaeth 'ICAN' sy'n cefnogi adrannau achosion brys ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ICAN yn ffordd gydweithredol o weithio â gwirfoddolwyr, pobl sydd â phrofiad personol a'r trydydd sector i symud ffocws gofal i atal ac ymyrraeth gynnar. Mae gan brosiect ICAN sawl agwedd, ac un o'r rheiny yw lleoli gwirfoddolwyr hyfforddedig yn y tair adran achosion brys yng ngogledd Cymru rhwng 7pm a 2am i gynnig cymorth a gwasanaeth cyfeirio i unigolion sy'n mynychu gyda phroblemau iechyd meddwl neu lesiant nad oes angen triniaeth feddygol, gofal yn yr ysbyty na gofal iechyd meddwl brys arnynt⁶⁸. Dywedodd un o weinidogion Llywodraeth Cymru a ymwelodd ag un gwasanaeth ei bod yn 'glir' fod y gwasanaeth yn 'cael effaith gadarnhaol'⁶⁹. Mae'r gwasanaeth ICAN yn cael ei werthuso ar hyn o bryd, ond yn ystod yr un cyfnod â'r cyfnod casglu data unigryw, 1 Rhagfyr 2019 i 29 Chwefror 2020, cefnogodd y gwasanaeth 431 o bobl wyneb yn wyneb ac ymgwymerodd â 771 o alwadau cefnogol. Yn ystod y cyfnod hwn, o'r bobl a gafodd eu gweld wyneb yn wyneb, dim ond 15% oedd angen eu cyfeirio at wasanaethau'r GIG gyda 85% yn derbyn cyngor, neu'n cael eu cyfeirio at asiantaethau neu gymorth arall.

9.6 Gofal Cymdeithasol

Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r adran o awdurdodau lleol sy'n amddiffyn llesiant plant ac oedolion bregus. Ledled Cymru, mae pob awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth gofal cymdeithasol 'dyletswydd frys' y tu allan i oriau, er yn y gwasanaethau hyn gall nifer cyfyngedig o staff

fod yn gwasanaethu ardaloedd daearyddol eang a gweithgarwch uchel. Mae eu gwaith yn cynnwys ymweld ag oedolion sy'n profi argyfyngau iechyd meddwl a allai arwain atynt yn cael eu derbyn i'r ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ymateb i alwadau am oedolion bregus, plant sy'n agored i niwed a gofalwyr mewn angen. Canfu astudiaeth, pan mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn dod i gysylltiad â phobl hŷn fod hynny'n aml mewn sefyllfa o argyfwng pan nad yw 'gwasanaethau oriau swyddfa ar gael'⁷⁰.

Ymddengys mai prin iawn, os o gwbl, yw'r astudiaethau i niferoedd, natur neu ganlyniadau galwadau i dimau dyletswydd frys ledled Cymru, ac i ba raddau y caiff galwadau i wasanaethau brys eu dargyfeirio i dimau dyletswydd i ymdrin â phryderon lles ac i'r gwrthwyneb. Mae'n anochel y bydd galwadau i'r heddlu yn ymwneud ag argyfwng iechyd meddwl a all arwain at gymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Mae data ar gael yn ymwneud ag Adran 136* a gweithgarwch arall yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys cydweithio amlasiantaethol rhwng yr heddlu, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ledled Cymru. Roedd 431 o asesiadau Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod tri mis cyntaf 2020⁷¹. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau rhwng galwadau brys, dargyfeirio ac ymateb y tîm dyletswydd frys wedi'u deall yn dda.

10. Yr Heddlu

Mae'r Heddlu yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau o atal, canfod, ac ymateb i drosedd, i ddiogelwch y cyhoedd a chydlyniant cymunedol. Swyddogion heddlu yw'r cyntaf rhan amlaf i gael eu galw i unrhyw achos o berson mewn angen neu'n profi gofid⁷¹. Mae heddluoedd yn

Mae *Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi'r pŵer i'r heddlu fynd ag unigolyn o fan cyhoeddus, os ydynt yn ymddangos i fod yn dioddef o anhwylder meddwl, i le diogel, fel rheol ysbyty iechyd meddwl y GIG, am asesiad. Mae gweithwyr cymdeithasol a seiciatryddion arbenigol yn cefnogi'r asesiadau hyn.

delio â 'nifer cynyddol o alwadau' yn ymwneud â sefyllfaoedd a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â phryderon llesiant, iechyd meddwl, anawsterau cymdeithasol a gofid⁷².

Gall y rhain arwain at amrywiaeth o ymryiadau megis:

- Ymateb brys i alwadau ynghylch pryderon llesiant, salwch meddwl neu rywun yn rhoi eu hunain neu eraill mewn perygl,
- Ceisiadau 'gwirio llesiant', lle gall staff iechyd neu ofal cymdeithasol ofyn i'r heddlu ymweld â rhywun pan nad ydynt yn gallu cysylltu â nhw neu mae'r person wedi methu apwyntiad,
- Cefnogi dioddefwyr trosedd, oherwydd gall fod angen cymorth ychwanegol ar bobl fregus drwy'r broses ymchwilio,
- Galwadau unigolion coll gan ysgolion, ysbytai iechyd meddwl, cartrefi gofal neu lety â chymorth lle mae staff yn poeni pan mae pobl yn cael gwyliau heb gynllunio neu ddim yn dychwelyd o wyliau fel y cynlluniwyd,
- Patrolio'r gymdogaeth lle gall swyddogion heddlu wirio bod unigolion bregus yn gofalu amdanynt eu hunain⁷³.

Mae'r ystod eang o anghenion a adlewyrchir mewn galwadau iechyd meddwl neu lesiant, a ddangosir yn ddiweddarach yn yr Adolygiad hwn, yn her i heddluoedd sydd, fel arfer, heb eu hyfforddi i'r graddau a ystyrir yn angenrheidiol i flaenoriaethu ac ymateb yn briodol i alwadau o'r fath. Mae safbwyntiau yn amrywio o ran rôl yr heddlu yn ymateb i argyfyngau sy'n gysylltiedig â phryderon iechyd meddwl a llesiant gydag astudiaethau yn dangos y treulir rhan helaeth o amser yr heddlu bellach ar alw 'nad yw'n draddodiadol'⁷⁴. Mae 'galw yn sgilmethiant' wedi cael ei fathu i ddisgrifio galwadau nad ydynt yn frys nac yn draddodiadol i'r heddlu⁷⁵, y mae cyfran ohonynt yn debygol o ymwneud â phryderon iechyd meddwl neu lesiant.

Mae 'galw yn sgil methiant' yn adlewyrchu'r gosodiad bod galwadau o'r fath yn dangos diffyg argaeledd gwasanaethau amgen addas a bod galwadau ar 'eu hanterth' yn ystod oriau pan nad yw asiantaethau iechyd a gwasanaethau llesiant cymdeithasol ar gael yn rhwydd^{76,77,78}.

Mae heddluoedd yng Nghymru yn cysylltu, yr hyn a elwir yn, 'fflagiau' â galwadau iechyd meddwl. Gellir diffinio'r 'fflagiau' hyn fel presenoldeb marciwr rhithiol ar systemau cyfrifiadurol yr heddlu sydd, drwy ryngweithiadau blaenorol neu wybodaeth gyfredol, yn rhoi gwybod i drinwyr galwadau y gall yr alwad gynnwys person sydd â phroblem iechyd meddwl. Er y gall fod yna broblemau â'r system 'fflagiau'⁷⁹, ac efallai ei bod yn categoreiddio iechyd meddwl fel achos posib problem yn gwbl anghywir, nid yw wedi'i bwriadu i weithredu yn lle asesiadau clinigol, cymdeithasol neu lesiant, ond i gefnogi heddluoedd i ddargyfeirio a chefnogi pobl sydd â bregusrwydd, salwch meddwl neu bryderon llesiant yn well.

Yn ogystal â dynodi problem 'iechyd meddwl', i rai heddluoedd gall y 'fflagiau' hyn, a all fod ar ffeiliau am hyd at 5 mlynedd, neu mewn rhai achosion am 'oes', ddynodi problemau hunan-niweidio neu hunanladdiad⁸⁰. Gellir cymhwyso'r 'fflagiau' hyn i bobl sydd wedi dod i gysylltiad â'r heddlu drwy fod yn ddioddefwr neu gyflawnwr trosedd neu fel person bregus neu ar goll neu rywun sydd â phryder llesiant. Presenoldeb un neu fwy o'r fflagiau hyn, sy'n cael ei ddefnyddio yn aml i fesur galw iechyd meddwl gan yr heddlu. Yn 2017, ar gyfartaledd, roedd gan 3% o ddigwyddiadau'r heddlu fflag iechyd meddwl⁸¹, ond gall y gyfran hon fod yn uwch ar hyn o bryd. Gellir disgwyl gweld cynnydd mewn galw o ganlyniad i 'fflagiau' yn aros ar y system am amser hir ac felly bydd gan fwy o'r boblogaeth 'fflag'.

Mae nifer sylweddol o alwadau'r dydd i heddluoedd yn ymwneud ag unigolion coll, a gwelodd 'cipolwg mewnol' ar alw ar un diwrnod ym mis Tachwedd 2019, 29 achos o'r fath ar draws tri heddlu yng Nghymru. Daw nifer o'r galwadau hyn gan ysgolion, cyfleusterau sy'n gofalu am bobl hŷn neu unigolion bregus neu ysbytai. Gall chwilio am unigolion coll ddefnyddio llawer o adnoddau a bydd heddluoedd bob amser yn awyddus i weithio ag awdurdodau lleol i sicrhau bod popeth yn cael ei wneud yn briodol a diogel i leihau'r nifer o alwadau. Mae nifer o heddluoedd hefyd yn gweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol o fewn eu canolfannau galwadau, gall y staff yma, boed o gefndir iechyd neu ofal cymdeithasol, ddarparu cyngor arbenigol i swyddogion heddlu a thrinwyr galwadau a chynorthwyo â blaenoriaethu a dargyfeirio galwyr i wasanaeth amgen priodol.

Mae un gwasanaeth o'r fath yn ystafell reoli Heddlu Gwent yn derbyn cannoedd o geisiadau am gymorth bob mis⁸². Mae gwasanaeth arall, yn ychwanegol at weithio mewn ystafelloedd rheoli yn cefnogi swyddogion, hefyd yn cydlynu asesiadau iechyd meddwl mewn ystafelloedd y ddalfa a llysoedd ynadon. Mae'r gwasanaeth hwn, Gwasanaeth Cyswllt Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, wedi cymryd rhan mewn oddeutu 200 o alwadau'r mis ers lansio'n llawn amser ddechrau 2020. Dywedodd astudiaeth ddiweddar gan fod gan 'bron pob' heddlu ei wasanaethau brysbennu iechyd meddwl ei hun bellach ac 'nid yw galw wedi lleihau', bod angen mwy o bwyslais ar 'ymyrraeth gynnar' i atal yr angen am ymateb i argyfwng. Nododd yr un astudiaeth mai'r heddlu yn aml yw'r 'prif ymatebwyr' i alwadau yn ymwneud â phryderon iechyd meddwl neu lesiant gan fod y rhain yn aml yn digwydd 'y tu allan i oriau' pan nad yw gwasanaethau eraill ar gael, er dywedodd yr astudiaeth fod 'diffyg dealltwriaeth gyffredinol' gan heddluoedd o 'raddfa a natur eu galw iechyd meddwl'⁸³.

Amcangyfrifodd y Coleg Plismona fod rhwng 15% a 20% o ddigwyddiadau'r heddlu yn gysylltiedig ag 'iechyd meddwl'⁸⁴, ac amcan Canolfan Iechyd Meddwl Sainsbury oedd 15%⁸⁵. Gall y galw hwn fod drwy alwadau '999', galwadau '101', unigolion coll, digwyddiadau patrolio neu ymwneud ag unigolion yn y ddalfa a gellir ei archwilio yn defnyddio data un diwrnod o 'gipolwg' mewnol ym mis Tachwedd 2019. Gwelodd y 'cipolwg' hwn y canlynol yn cael eu diffinio fel galw iechyd meddwl:

- Heddlu Dyfed-Powys yn ymateb i 13 o alwadau '999' (3.7% o alw dyddiol), 18 o alwadau nad ydynt yn argyfwng (5.1% o alw dyddiol) a 4 o apeliadau unigolion coll,
- Heddlu Gwent yn ymateb i 14 o alwadau '999' (3.4% o alw dyddiol), 21 o alwadau nad ydynt yn argyfwng (5.1% o alw dyddiol) a 14 o apeliadau unigolion coll,
- Heddlu Gogledd Cymru yn ymateb i 19 o alwadau '999' (4.4% o alw dyddiol), 18 o alwadau nad ydynt yn argyfwng (4.2% o alw dyddiol). Ni ddatgelwyd nifer yr apeliadau unigolion coll.
- Heddlu De Cymru yn ymateb i 53 o alwadau '999' (4.2% o alw dyddiol), 76 o alwadau nad ydynt yn argyfwng (6% o alw dyddiol) a 11 o apeliadau unigolion coll.

Dangosodd y data 'cipolwg' hwn fod galw o alwadau '999' a galwadau nad ydynt yn argyfwng yn 9.4% o'r cyfanswm galwadau ar draws pob un o bedwar heddlu Cymru. Gall fod y gyfran a adroddwyd gan yr Heddlu fod yn uwch o ganlyniad i ddigwyddiadau eraill megis arestiadau, unigolion coll a digwyddiadau patrolio'r heddlu hefyd yn cael eu cysylltu â galw iechyd meddwl. Ar gyfer oddeutu 80% o'r galwadau hyn cafodd swyddog heddlu ei anfon allan. Gall pob galwad neu apêl unigolyn coll fod wedi cael ymateb gan fwy nag un swyddog a chymryd cryn dipyn o amser. Bydd cyfran o'r achosion hyn, megis y rheiny yn ymwneud â threfn gyhoeddus, yn briodol ar gyfer ymateb gan yr heddlu, ond bydd

rhai galwadau yn fwy priodol ar gyfer atgyfeiriad i wasanaethau iechyd meddwl neu asiantaethau cymorth neu gyngor eraill. Mae'r adnoddau sy'n gysylltiedig ag ymateb i alw iechyd meddwl a'r pwysigrwydd y mae heddluoedd bellach yn ei roi ar iechyd meddwl, yn cefnogi'r ffaith bod yr heddlu yn chwarae rôl allweddol yn atal niwed i bobl fregus a galluogi mynediad at asiantaethau eraill.

11. Tân ac Achub

Mae gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, yn ogystal â brwydro ac atal tannau a llifogydd ac ymateb i ddamweiniau a digwyddiadau, hefyd yn ymgymryd ag ymweliadau 'byw ac iach', sy'n cynnwys asesiad iechyd cryno, cyngor a chymorth i leihau risgiau tân i unigolion bregus⁸⁶.

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â 'thros ddeugain' o sefydliadau elusennol a gwirfoddol y trydydd sector i ymgymryd â gwiriadau byw ac iach hyn i bobl sy'n 'risg uchel neu'n agored i niwed'. Mae gan rai gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru brosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc bregus megis y 'Phoenix Project' a gynhelir gan wasanaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru⁸⁸.

RHAN C

CASGLIAD DATA UNIGRYW

Cynnwys

12.	TROSOLWG O'R DATA.....	28
13.	DIWRNOD O'R WYTHNOS Y DERBYNIWYD GALWADAU.....	28
14.	AMSER O'R DYDD YR ALWAD.....	29
15.	RHYWEDD Y PERSON GYDA'R BROBLEM INDECS.....	30
16.	OEDRAN Y PERSON GYDA'R BROBLEM INDECS.....	31
17.	PERTHYNAS Y GALWR Â'R PERSON GYDA'R BROBLEM INDECS.....	32
18.	COD POST Y GALWR.....	33
19.	PROBLEMAU INDECS PENODOL.....	34
20.	TROSOLWG.....	34
21.	PROBLEMAU INDECS AC OEDRAN.....	35
22.	PROBLEMAU INDECS A RHYWEDD.....	40
23.	PERTHYNAS Y GALWR Â'R PERSON GYDA'R BROBLEM INDECS.....	42
24.	CYSYLLTIADAU RHWNG PROBLEMAU INDECS.....	48
25.	HYD YR ALWAD.....	50
26.	RISG A BRYSBENNU.....	52

27.	PROBLEM INDECS BENODOL - YSBRYD ISEL NEU ISELDER.....	57
28.	PROBLEM INDECS BENODOL - SALWCH MEDDWL.....	61
29.	PROBLEM INDECS BENODOL - YMDDYGIAD HUNANLADDOL.....	65
30.	PROBLEM INDECS BENODOL - DRYSWCH AC YMDDYGIAD RHYFEDD.....	69
31.	PROBLEM INDECS BENODOL - HUNAN-NIWEIDIO NEU ORDDOS.....	73
32.	PROBLEM INDECS BENODOL - MEDDWOD	77
33.	PROBLEM INDECS BENODOL - STRAEN, GORBRYDER NEU BANIG.....	81
34.	PROBLEM INDECS BENODOL - PERTHNASOEDD.....	85
35.	PROBLEM INDECS BENODOL - CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU.....	89
36.	PROBLEM INDECS BENODOL - UNIGRWYDD NEU ARWAHANRWYDD.....	93
37.	PROBLEM INDECS BENODOL - CAM-DRIN DOMESTIG.....	97
38.	PROBLEM INDECS BENODOL - DEMENTIA.....	101
39.	PROBLEM INDECS BENODOL - DYLED, ARIAN, BUDD-DALIADAU.....	103
40.	PROBLEM INDECS BENODOL - DIGARTREFEDD NEU DAI.....	105
41.	PROBLEM INDECS BENODOL - AFLONYDDU NEU FWLIO.....	107
42.	PROBLEM INDECS BENODOL - GWAITH NEU YSGOL.....	109
43.	PROBLEM INDECS BENODOL - HUNANIAETH RYWEDD.....	111

'MAE CYMHLETHDOD YR ARGYFWNG YN DEBYGOL O FOD YN AMLHAENOG'

**DATGANIAD GAN: LYWODRAETH CYMRU A PHARTNERIAID
CONCORDAT GOFAL MEWN ARGYFWNG IECHYD MEDDWL (2015)**

12. Trosolwg o'r Data

Fel yr archwiliwyd yn yr adran 'methodoleg', datblygwyd dull casglu data unigryw ar gyfer yr Adolygiad. Mae'r term 'problem indecs' wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio natur y pryder/anhawster/profiad a drafodwyd ar y ffôn.

Cofnodwyd cyfanswm o **10,175** o alwadau yn ystod y cyfnod casglu data er, o ystyried y prosesau mewnol gwahanol, roedd casglu data yn anghyson rhwng gwasanaethau brys. Ceir dadansoddiad llawn o'r casgliad data yn [Atodiad 3](#).

Mae'r wybodaeth hon yn ddarlun statig o'r galwadau sydd wedi'i gyfyngu i'r cyfnod casglu data ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw wahaniaethau tymhorol neu hydredol yn y galw.

13. Diwrnod o'r Wythnos y Derbyniwyd Galwadau

Ar gyfer 99.8% (10,153) o alwadau, cofnodwyd y diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad. Roedd llai na 2% o wahaniaeth rhwng y gyfran isaf ac uchaf o alwadau a dderbyniwyd bob dydd. Y diwrnod o'r wythnos gyda'r gyfran isaf o alwadau a dderbyniwyd oedd dydd Sadwrn a'r gyfran uchaf oedd dydd Gwener. Dengys **Ffigwr 1** y diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd galwadau.

Ffigwr 1:
Nifer a Chyfran y Galwadau a Dderbyniwyd yn ôl Diwrnod o'r Wythnos




14. Amser o'r Dydd yr Alwad

Ar gyfer 99.5% (10,126) o alwadau, cofnodwyd yr amser yr atebwyd yr alwad. Cafodd y galwadau eu gosod mewn grwpiau fesul awr. Derbyniwyd y gyfran isaf o alwadau (1.1%) rhwng 6am a 7am a derbyniwyd y gyfran uchaf (6.4%) rhwng

8pm a 9pm. Digwyddodd y rhan fwyaf o alwadau (61%) 'y tu allan i oriau' o 5pm tan 9am. Dengys **Ffigwr 2** yr amser o'r dydd y derbyniwyd galwadau fesul awr.

Ffigwr 2:
Nifer y Galwadau a Dderbyniwyd yn ôl Amser o'r Dydd



DIWRNOD O'R WYTHNOS Y DERBYNIWYD YR ALWAD

15. Rhywedd y Person gyda'r Broblem Indecs

Ar gyfer 94.8% (9652) o alwadau, llwyddwyd i sefydlu rhywedd y person â'r broblem indecs.


Trefnwyd y galwadau hyn i grwpiau naill ai gwryw, benyw neu anhysbys/nas datgelwyd.

Noda ystadegau, yn ôl y cyfrifiad olaf, fod 51% o'r boblogaeth yn ferched a 49% yn ddynion⁸⁹.

Roedd ychydig yn fwy o alwadau gan neu ynghylch dynion na merched fel y gwelir yn **Ffigwr 3**.

Ffigwr 3:

Cyfran y Galwadau yn ôl Rhywedd y Person gyda'r Broblem Indecs




16. Oedran y Person gyda'r Broblem Indecs

Ar gyfer 90.7% (9,230) o alwadau, llwyddwyd i sefydlu oedran y person â'r broblem indecs. Yr oedran ieuengaf a gofnodwyd oedd 9 oed a'r hynaf oedd 100 oed. Rhannwyd yr oeddrannau hyn yn grwpiau, y mae gan roi ohonynt ystod oedran ehangach o lawer nag eraill. Noda ystadegau swyddogol fod yn 2019, 18% o boblogaeth Cymru dan 15 oed, 11% rhwng 16 a 24 oed, 50% rhwng 25 a 64 oed a 21% dros 65 oed⁹⁰.

Dengys **Ffigwr 4** nifer y galwadau yn ôl grŵp oedran y person gyda'r broblem indecs fel cyfran o'r galwadau lle cofnodwyd oedran. Er bod oeddrannau wedi'u grwpio'n wahanol, mae cymharu'r cyfrannau yn Ffigwr 4 gyda'r ystadegau poblogaeth swyddogol yn dangos cyfrannau is o alwyr ar ddau begwn y sbectrwm (dan 15 oed neu hŷn na 65 oed) a chyfrannau uwch yn y grŵp oedolion ifanc (16–25 oed) a grwpiau oedolion wedi'u cyfuno (26–64 oed).

Ffigwr 4:

Nifer a % yr Unigolion gyda'r Broblem Indecs yn ôl Grwpiau Oedran



17. Perthynas y Galwr â'r Person gyda'r Broblem Indecs

Ar gyfer 58.9% (6,002) o alwadau, llwyddwyd i sefydlu perthynas y galwr â'r person gyda'r broblem indecs. Fel cyfran o'r galwadau lle cofnodwyd y berthynas:

- roedd **38%** (2310) o alwadau gan y **person gyda'r broblem indecs**,
- roedd **20%** (1202) o alwadau gan **weithiwr proffesiynol, megis nyrs, gweithiwr cymdeithasol neu ymarferydd cyffredinol**,
- roedd **17%** (1031) o alwadau gan **berthynas neu riant** y person gyda'r broblem indecs,
- roedd **12%** (723) o alwadau gan **aelod o'r cyhoedd neu unigolyn heb unrhyw berthynas â'r person** gyda'r broblem indecs,
- roedd **11%** (663) o alwadau gan **ffrind neu gymydog** y person gyda'r broblem indecs,
- roedd **1%** (73) o alwadau gan **blentyn** y person gyda'r broblem indecs.

O ganlyniad i fethodolegau casglu data gwahanol, dim ond tri gwasanaeth oedd yn gallu cofnodi'r berthynas. Roedd gwahaniaethau rhwng y gwasanaethau hyn fel y dangosir yn **Ffigur 5**, gyda bron i hanner y galwadau i Wasanaeth Ambiwylans Cymru yn cael eu gwneud gan yr unigolyn ei hun a'r cyhoedd yn fwy tebygol o lawer o ffonio'r heddlu na'r gwasanaethau ambiwlans.

Ffigur 5:

Perthynas y Galwr yn ôl % Ar Draws Tri Gwasanaeth

	Heddlu Dyfed Powys	Heddlu De Cymru	Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
Person ei hun	28%	35%	46%
Gweithiwr proffesiynol	21%	25%	16%
Rhiant/Perthynas	16%	17%	22%
Aelod o'r Cyhoedd/ Dieithryn	22%	12%	3%
Ffrind/Cymydog	12%	9%	13%
Plentyn	1%	2%	1%
Cyfanswm	100%	100%	100%

Llwyddwyd i sefydlu oedran y person â'r broblem indecs yn 95.3% (5,723) o'r 6,002 o alwadau lle llwyddwyd i sefydlu'r berthynas hefyd. Dengys **Ffigur 6** oedran y person â'r broblem indecs yn ôl perthynas â'r galwr. Dengys y ffigur mai'r person ei hun oedd yn tueddu i gynrychioli'r gyfran fwyaf o alwyr ar gyfer pob grŵp ac eithrio rhieni/perthnasau yn ffonio am rywun a oedd yn 15 oed neu iau, roedd gweithwyr proffesiynol yn tueddu i ffonio am blant ac roedd y cyhoedd ddwywaith yn fwy tebygol o ffonio am berson dros 65 oed na phlentyn.

Ffigwr 6:**Perthynas y Galwr yn ôl % Ar Draws Grwpiau Oedran**

	O dan 15 oed	16 i 25 oed	26 i 35 oed	36 i 64 oed	Dros 65 oed
Person ei hun	10%	34%	37%	44%	44%
Ffrind/Cymydog	6%	13%	11%	10%	10%
Rhiant/Perthynas	40%	16%	18%	14%	14%
Plentyn	2%	1%	1%	2%	2%
Gweithiwr proffesiynol	34%	25%	20%	19%	17%
Aelod o'r Cyhoedd/ Dieithryn	7%	10%	13%	12%	14%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%	100%

18. Cod Post y Galwr

Ar gyfer 77.2% (7,854) o alwadau, llwyddwyd i sefydlu cod post y person â'r broblem indecs. Gall y cyfrannau gael eu heffeithio gan ddulliau cofnodi a/ neu gael eu dylanwadu gan ddwyyster y boblogaeth ac felly nid ydynt yn arwydd o'r galw. Gan fod yna gyfanswm o 174 o godau post gwahanol wedi'u cofnodi maent wedi cael eu grwpio yn ôl ardaloedd cod post neu ddaearyddol fel y dangosir yn y rhestr isod fel cyfran o'r cyfanswm galwadau:

- **Gwnaethpwyd 20%** (2059) o alwadau **o fewn ardal cod post SA** sy'n cwmpasu ardaloedd o dde-orllewin Cymru gan gynnwys Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot, Caerfyrddin a Phenfro,
- **Gwnaethpwyd 14%** (1442) o alwadau **o fewn ardal cod post CF** sy'n cwmpasu ardaloedd o dde Cymru gan gynnwys Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful,
- **Gwnaethpwyd 10%** (970) o alwadau **o fewn ardal cod post LL** sy'n cwmpasu ardaloedd o ogledd Cymru gan gynnwys Llandudno, Conwy, y Rhyl, St Davids a Wrecsam, a gwnaethpwyd

- **9%** (868) o alwadau **o fewn Casnewydd** neu'r ardal gyfagos,
- **Gwnaethpwyd 7%** (681) o alwadau **o fewn Caerffili** neu'r ardal gyfagos,
- **Gwnaethpwyd 4%** (444) o alwadau **o fewn Torfaen** neu'r ardal gyfagos,
- **Gwnaethpwyd 3%** (356) o alwadau **o fewn cod post SY** sy'n cwmpasu ardaloedd o ganolbarth Cymru yn cynnwys y Drenewydd a'r Trallwng,
- **Gwnaethpwyd 3%** (343) o alwadau **o fewn Mynwy** neu'r ardal gyfagos,
- **Gwnaethpwyd 3%** (326) o alwadau **o fewn Blaenau** neu'r ardal gyfagos,
- **Gwnaethpwyd 2%** (195) o alwadau **o fewn cod post CH** sy'n cwmpasu ardaloedd o ogledd-ddwyrain Cymru yn cynnwys yr Wyddgrug a'r Fflint,
- **Gwnaethpwyd 1%** (125) o alwadau **o fewn cod post LD** sy'n cwmpasu ardaloedd o ganolbarth Cymru yn cynnwys Llandrindod, Aberhonddu a Threfyclo.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar godau post yn **Atodiad 4**.

19. Problemau Indecs Penodol

Rhannwyd y sbectrwm eang o broblemau indecs yn ddau ar bymtheg o categorïau gwahanol. Nid oedd y problemau indecs hyn yn ddsbarthiadau clinigol, gwyddonol neu academiaidd ond, yn hytrach, dosbarthiadau pragmatig fel y gallai trinwyr galwadau brys heb unrhyw gefndir clinigol neu hyfforddiant arbenigol adnabod a chofnodi'r broblem yn gyflym. Cynhyrchwyd y categorïau yn ôl consensws o fewn y Grŵp Cyfeirio Arbenigol a'u cynhyrchu i ddarparu ystod gynhwysfawr o anghenion tebygol.

20. Trosolwg

Diffiniwyd y problemau indecs yn ôl 'geiriau sbardun' er mwyn i drinwyr galwadau eu hadnabod yn gyflym drwy dermau cyffredinol, y mae llawer ohonynt yn gyfnewidiadwy neu ryngysylltiedig megis 'hunan-niweidio' a 'gorddos'.

Gofynnwyd i drinwyr galwadau adnabod yr holl broblemau indecs a gafodd eu trafod, datgelu neu adnabod yn ystod yr alwad ac ar y cyfan, ar gyfer y 10,175 o alwadau a gofnodwyd fel rhan o'r casgliad data unigryw, adnabuwyd **21,023** o broblemau indecs unigol.

Rhestrir y ddau ar bymtheg o broblemau indecs ar y dde mewn trefn ddisgynnol yn ôl cyfran o'r cyfanswm problemau indecs a adnabuwyd, gyda nifer y galwadau mewn cromfachau. Gall problemau indecs fod wedi'u cofnodi fel problemau unigol neu ar y cyd â phroblemau eraill. Mae geiriau sbardun a ddefnyddiwyd gan y trinwyr galwadau wedi'u pwysleisio mewn print trwm.

- Adnabu **15.6%** (3288) o alwadau **ysbryd isel** neu **iselder posib** fel problem indecs,
- Adnabu **14.4%** (3032) o alwadau **salwch meddwl yn y gorffennol neu'r presennol** fel problem indecs,
- Adnabu **14.1%** (2966) o alwadau **ymddygiad hunanladdol** fel problem indecs,
- Adnabu **14%** (2939) o alwadau **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** fel problem indecs,
- Adnabu **9.9%** (2081) o alwadau **hunan-niweidio neu orddos** fel problem indecs,
- Adnabu **6.5%** (1367) o alwadau **meddwdod** fel problem indecs,
- Adnabu **5.9%** (1250) o alwadau **straen, gorbryder neu banig** fel problem indecs,
- Adnabu **4.9%** (1026) o alwadau **perthnasodd** fel problem indecs,
- Adnabu **3.7%** (772) o alwadau **camddefnyddio sylweddau** fel problem indecs,
- Adnabu **2.9%** (601) o alwadau **unigrwydd neu arwahanrwydd** fel problem indecs,
- Adnabu **2.6%** (548) o alwadau **cam-drin domestig** fel problem indecs,
- Adnabu **1.6%** (334) o alwadau ymddygiad yn gysylltiedig â **dementia posib** fel problem indecs,
- Adnabu **1.2%** (250) o alwadau **dyled neu arian, neu fudd-daliadau gwladol** fel problem indecs,
- Adnabu **1.1%** (228) o alwadau **digartrefedd neu bryderon ynghylch tai** fel problem indecs,
- Adnabu **1%** (220) o alwadau **aflonyddu neu fwlio** fel problem indecs,
- Adnabu **0.5%** (100) o alwadau **problemau yn y gwaith neu'r ysgol** fel problem indecs,
- Adnabu **0.1%** (21) o alwadau **hunaniaeth rywedd** fel problem indecs,

Bydd pob un o'r meysydd hyn yn cael eu harchwilio yn ddiweddarach yn yr Adolygiad. Rhaid cymryd gofal gyda'r ffigyrau hunaniaeth rywedd o ganlyniad i'r niferoedd isel iawn.

21. Problemau Indecs ac Oedran

Ar gyfer 95% (19,981) o'r problemau indecs, llwyddwyd i sefydlu oedran y person. Mae'r ffigyrau yn yr adran hon yn Gymarebau Ods, gyda'r cyfyngau hyder wedi'u tynnu, gan gymharu'r tebygolrwydd o broblem yn cael ei hadrodd yn un grŵp oedran gyda'r pedwar grŵp oedran arall. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys manylion ynglŷn â pha broblemau indecs sy'n digwydd gydag amllder neu anamllder abnormal i bob un o'r grwpiau oedran. Os yw'r Gymhareb Ods uwchlaw 1 yna mae siawns uwch o'r broblem indecs honno


yn bresennol i'r grŵp oedran hwnnw, islaw 1 llai o siawns ac ar 1 siawns cyfwerth.

Dengys **Ffigwr 7** y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs yn 15 oed neu iau.

Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau perthnasoedd, aflonyddu/bwllo a gwaith/ysgol o'i gymharu â'r grwpiau oedran eraill ac yn is yn y categorïau digartrefedd/tai a hunaniaeth rywedd.


Ffigwr 7:

Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer Grŵp Oedran 15 Oed neu iau



Dengys Ffigwr 8 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs rhwng 16 a 25 oed. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau hunanladdiad a hunan-niweidio/gorddos o'i gymharu â'r grwpiau oedran eraill ac yn is yn y categori dementia.


Ffigwr 8:
Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer Grŵp Oedran 16-25 Oed



Dengys Ffigwr 9 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs rhwng 26 a 35 oed. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau camddefnyddio sylweddau a hunaniaeth rywedd o'i gymharu â'r grwpiau oedran eraill ac yn is yn y categori dementia.


Ffigwr 9:

Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer Grŵp Oedran 26-35 Oed



Dengys Ffigwr 10 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs rhwng 36 a 64 oed. Dengys y ffigur fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau meddwdod a dyled/arian/budd-daliadau o'i gymharu â'r grwpiau oedran eraill ac yn is yn y categorïau dementia a gwaith/ysgol


Ffigwr 10:
Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer Grŵp Oedran 36-64 Oed



Dengys Ffigwr 11 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs dros 65 oed. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau dryswch/ymddygiad rhyfedd a'r categorïau unig/ar wahân o'i gymharu â'r grwpiau oedran eraill ac yn is yn y categorïau camddefnyddio sylweddau a gwaith/ysgol. Roedd y categori dementia 85 gwaith yn fwy aml, gan fynd ymhell y tu hwnt i bamedrau'r siart.

Ffigwr 11:

Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer Grŵp Oedran Dros 65 Oed



22. Problemau Indecs a Rhywedd


Ar gyfer 98% (20,543) o'r problemau indecs, llwyddwyd i sefydlu rhywedd y person. Mae'r ffigyrau yn yr adran hon yn Gymarebau Ods gyda'r cyfyngau hyder wedi'u dileu, sy'n cymharu'r tebygolrwydd o broblem yn cael ei hadrodd i un rhywedd gyda'r rhywedd arall. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys manylion ynglŷn â pha problemau indecs sy'n digwydd gydag amllder neu anamllder abnormal i bob rhywedd. Os yw'r Gymhareb Ods

uwchlaw 1 yna mae siawns uwch o'r broblem indecs honno yn bresennol i'r rhywedd hwnnw, islaw 1 llai o siawns ac ar 1 siawns cyfwerth.

Dengys **Ffigwr 12** y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs yn wryw. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau camddefnyddio sylweddau, dyled/arian/budd-daliadau a digartrefedd/tai o'i gymharu â merched ac yn is yn y categorïau cam-drin domestig a dementia.

Ffigwr 12:


Cymarebau Ods ar gyfer Dynion gyda Phroblemau Indecs



Dengys **Ffigwr 13** y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs yn fenyw. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch

yn y categorïau dementia a cham-drin domestig o'i gymharu â dynion ac yn is yn y categorïau camddefnyddio sylweddau, dyled/arian/budd-daliadau a digartrefedd/tai.

Ffigwr 13:
Cymarebau Ods ar gyfer Merched gyda Phroblemau Indecs



23. Perthynas y Galwr â'r Person gyda'r Broblem Indecs


Ar gyfer 72% (15,205) o'r 21,023 o broblemau indecs, llwyddwyd i sefydlu'r berthynas rhwng y galwr a'r person gyda'r broblem indecs. Mae'r ffigyrau yn yr adran hon yn Gymharebau Ods, gyda'r cyfyngau hyder wedi'u dileu, sy'n cymharu'r tebygolrwydd o broblem yn cael ei hadrodd yn un math o berthynas gyda'r mathau eraill o berthynas.

Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys manylion ynglŷn â pha broblemau indecs sy'n digwydd gydag amllder neu anamllder abnormal i bob un o'r mathau o berthynas. Os yw'r Gymhareb Ods uwchlaw 1 yna mae siawns uwch o'r broblem indecs honno yn bresennol i'r math hwnnw o berthynas, islaw 1 llai o siawns ac ar 1 siawns cyfwerth.

Dengys **Ffigwr 14** y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y person gyda'r broblem indecs yn ffonio eu hunain. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau straen/gorbryder/panig, unig/ar wahân a hunaniaeth rywedd o'i gymharu â'r mathau eraill o berthynas ac yn is yn y categorïau dementia a gwaith/ysgol.

Ffigwr 14:


Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer y Math o Alwr - Person eu Hunain



Dengys Ffigwr 15 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y galwr yn ffrind neu gymydog. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau hunan-niweidio/gorddos, meddwdod a gwaith/ysgol o'i gymharu â'r mathau eraill o berthynas ac yn is yn y categorïau cam-drin domestig a digartrefedd/tai.

Ffigwr 15:


Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer y Math o Alwr - Ffrind/Cymydog



Dengys Ffigwr 16 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y galwr yn rhiant neu berthynas. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau perthynas a gwaith/ysgol o'i gymharu â'r mathau eraill o berthynas ac yn is yn y categorïau digartrefedd/tai.

Ffigwr 16:


Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer y Math o Alwr - Rhiant/Perthynas



Dengys Ffigwr 17 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y galwr yn blentyn y person gyda'r broblem indecs. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau perthynas, cam-drin domestig, dementia ac aflonyddu/bwlio o'i gymharu â'r mathau eraill o berthynas ac yn is yn y categorïau hunaniaeth rywedd.

Ffigwr 17:


Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer y Math o Alwr - Plentyn



Dengys Ffigwr 18 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y galwr yn weithiwr proffesiynol. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau hunanladdiad a hunan-niweidio/gorddos o'i gymharu â'r mathau eraill o berthynas ac yn is yn y categorïau perthynas, cam-drin domestig a hunaniaeth rywedd.

Ffigwr 18:


Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer y Math o Alwr - Gweithiwr Proffesiynol



Dengys Ffigwr 19 y Gymhareb Ods i bob categori lle'r oedd y galwr yn aelod o'r cyhoedd neu ddieithryn. Dengys y ffigwr fod y cymarebau yn uwch yn y categorïau dryswch/ymddygiad rhyfedd, dyled/arian/budd-daliadau a digartrefedd/tai o'i gymharu â'r mathau eraill o berthynas ac yn is yn y categorïau hunan-niweidio/gorddos, perthynas ac aflonyddu/bwlio.

Ffigwr 19:

Cymarebau Ods yn ôl Problem Indecs ar gyfer y Math o Alwr - Aelod o'r Cyhoedd neu Ddieithryn




24. Cysylltiadau Rhwng Problemau Indecs

Canfu'r casgliad data unigryw, ar gyfer y 21,023 o broblemau indecs, roedd oddeutu **2** broblem indecs yr alwad, ar gyfartaledd. Roedd nifer y problemau indecs yn amrywio o un i naw. Dengys **Ffigwr 20** nifer a chyfran y galwadau yn ôl faint o broblemau indecs a gofnodwyd.

Ffigwr 20:

Nifer y Problemau Indecs yr Alwad yn ôl Nifer a %




Ar draws y ddau ar bymtheg o gategoriâu roedd nifer y galwadau lle cofnodwyd un broblem indecs yn unig yn 14% ar gyfartaledd, ac yn amrywio o 2% ar gyfer gwaith/ysgol i 23% ar gyfer dryswch/ymddygiad rhyfedd. Dengys **Ffigwr 21**, ar gyfer pob un o'r ddau ar bymtheg o gategoriâu, y gyfran o alwadau lle na chofnodwyd unrhyw broblem indecs arall o'r uchaf i'r isaf.

Ar draws y ddau ar bymtheg o gategorïau roedd nifer y galwadau lle cofnodwyd un broblem indecs yn unig yn 14% ar gyfartaledd, ac yn amrywio o 2% ar gyfer gwaith/ysgol i 23% ar gyfer dryswch/ymddygiad rhyfedd. Dengys **Ffigwr 21**, ar gyfer pob un o'r ddau ar bymtheg o gategorïau, y gyfran o alwadau lle na chofnodwyd unrhyw broblem indecs arall o'r uchaf i'r isaf.

Ffigwr 21:

% o Bob Categori heb Broblemau Indecs Cysylltiedig



CYFRAN O'R CATEGORI HEB BROBLEMAU INDECS CYSYLLTIEDIG

Ar gyfer 85.6% (17,989) o alwadau, cofnodwyd mwy nag un broblem indecs. Bydd pob un o'r cysylltiadau hyn yn cael eu trafod law yn llaw â'r problemau Indecs penodol yn ddiweddarach yn yr Adolygiad. Ceir crynodeb o'r cysylltiadau yn **Atodiad 5**.

25. Hyd yr Alwad

Llwyddwyd i gyfrifo hyd galwadau i gyfanswm o 71.6% (7,290) o'r 10,175 o alwadau a geir yn yr Adolygiad. Fel rheol un o'r meini prawf 'llwyddiant' ar gyfer galwadau brys yw cyflymder yr ymateb, er mae sicrhau bod yr ymateb yn briodol i ddiwallu angen y galwr yr un mor bwysig⁹¹.

Mae mesur hyd galwad fel rheol yn cynnwys pennu'r amser rhwng yr atebwyd yr alwad a'r amser y datryswyd yr alwad, fodd bynnag i rai gwasanaethau gall 'datrysiaid' olygu'r cyfanswm amser a dreuliwyd ar y 'digwyddiad', a all gynnwys hyd yr alwad, anfon gwasanaeth, cyswllt wyneb yn wyneb, cludo a chau'r achos.

Fel y gwelir yn **Ffigwr 22** mae gwahaniaeth amlwg rhwng Heddlu Dyfed Powys a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, lle cofnodir hyd cyfartalog galwadau mewn munudau, a'r Gwasanaeth ICAN, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru, lle cofnodir hyd cyfartalog digwyddiadau mewn oriau (nid oedd data ar gael ar gyfer Heddlu Gwent).

Ffigwr 22:

Hyd Cyfartalog Galwadau/Digwyddiadau yn ôl Gwasanaeth

	Heddlu Dyfed Powys	Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	Heddlu Gogledd Cymru	Heddlu De Cymru	Gwasanaeth ICAN
Hyd cyfartalog galwadau/digwyddiadau mewn munudau	14 munud	18 munud	121 munud	190 munud	228 munud


Mae Ffigwr 23 yn rhannu galwadau rhwng dau grŵp o ganlyniad i wahaniaeth yn nhermau cofnodi ac mae'n eithrio hunaniaeth rywedd o ganlyniad i'r niferoedd bychain.

Mae'r ddau grŵp yma, ac felly mesuriadau o amser, yn llawn gwybodaeth gan eu bod yn rhoi

mynegeion gwahanol o ymwneud gwasanaethau. Yn gyntaf, ynghylch hyd yr alwad uniongyrchol i'r gwasanaeth brys ac yn ail, amcangyfrif ehangach a mwy cynhwysol o'r amser y mae gwasanaethau brys yn parhau i ymwneud â delio gyda phob problem indecs.

Ffigwr 23:

Hyd Cyfartalog Galwadau/Digwyddiadau i bob Problem Indecs Wedi'i Rannu Rhwng Dau Grŵp o Ganlyniad i Wahaniaeth mewn Prosesau Cofnodi - mewn Trefn Esgynnol yn ôl Hyd yr Alwad.



26. Risg a Brysbennu

Brysbennu yw'r broses asesu sy'n digwydd ar adeg mynediad i wasanaeth er mwyn blaenoriaethu ymatebion. Ers cael eu datblygu gyntaf gan Brif Lawfeddyg byddin Napoleon ym 1792 i reoli'r clwyfedig mewn brwydr, mae cynlluniau 'brysbennu' bellach ar waith ar gyfer ystod o wasanaethau.

Mae asesu risg ar gyfer person sydd â phryderon iechyd meddwl neu lesiant yn rhan bwysig o sicrhau brysbennu ac atgyfeirio diogel ac effeithiol. Mae brysbennu ym maes iechyd meddwl yn swyddogaeth glinigol lle cynhelir asesiad sgrinio iechyd meddwl byr i bennu a oes gan y person broblem yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, natur frys y broblem, a'r ymateb gwasanaeth mwyaf priodol. Nid yw brysbennu yn rhoi diagnosis

ffurfiol o gyflyrau iechyd meddwl, ond mae'n casglu gwybodaeth am symptomau a risgiau yn gysylltiedig ag iechyd meddwl sy'n llywio penderfyniadau ynghylch yr ymateb gwasanaeth priodol, os o gwbl, ar gyfer pob galwad⁹². Dangosir un system frysennu o'r fath, a ddefnyddir yn y DU, yn **Atodiad 6**.

Un o nodau'r Adolygiad oedd archwilio'r gwahaniaethau mewn galw a roddir ar wasanaethau sy'n codi o agweddau gwahanol ar argyfwng, yn ofynnol gan fod anghenion iechyd meddwl a llesiant yn disgyn dan gylch gorchwyl gwasanaethau penodol a all gael eu comisiynu, cynllunio, darparu a dyrannu ar wahân. At ddibenion yr Adolygiad, rhannwyd y ddau ar bymtheg o broblemau indecs yn bedwar parth unigryw a all fynnu ymateb gwasanaeth gwahanol, fel y dangosir yn **Ffigwr 24**.

Ffigwr 24:

Problemau Indecs Ar Draws Pedwar Parth

Problemau indecs yn y parth 'Niwed uniongyrchol'	Problemau indecs yn y parth 'Nam'	Problemau indecs yn y parth 'Iechyd meddwl'	Problemau indecs yn y parth 'Cymdeithasol/ llesiant/ amgylcheddol'
<ul style="list-style-type: none"> • Hunanladdol • Hunan-niweidio/ Gorddos • Cam-drin domestig 	<ul style="list-style-type: none"> • Meddwdod • Dryswch/Ymddygiad rhyfedd • Straen/Gorbryder/ Panig • Camddefnyddio Sylweddau 	<ul style="list-style-type: none"> • Ysbryd isel/Iselder • Salwch meddwl • Dementia 	<ul style="list-style-type: none"> • Dyled arian • Aflonyddu/Bwlio • Unig/Ar wahân • Mater yn ymwneud â pherthynas • Gwaith/Ysgol • Hunaniaeth rywedd • Digartref


Nid yw'r parthau hyn wedi'u dilysu nac yn adlewyrchu risg glinigol a bydd gorgyffwrdd yn debygol rhwng parthau. Roedd y parthau hyn yn ymgais i wahaniaethu rhwng y galwadau hynny a all fynnu ymateb gwasanaeth brys, o bosib, (parth 'niwed uniongyrchol', ymateb gwasanaeth gofal corfforol ar rennir, iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau (parth 'nam'),

ymateb gwasanaethau iechyd meddwl (parth 'iechyd meddwl'), neu ymateb gan ystod o asiantaethau llesiant eraill y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (parth 'cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol).

Gellir gweld cyfran a nifer y galwadau ym mhob parth yn **Ffigwr 25**. Mae'r ffigwr yn dangos cyfrannau cymharol gyfartal ac eithrio cyfran is yn y parth cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol.

Ffigwr 25:

% a Nifer y Problemau Indecs ym Mhob Parth



Er mwyn pennu cysylltiadau posib ar draws y pedwar parth, cymharwyd cyffredinolrwydd pob problem indecs â phob un o'r parthau eraill nad oedd yn eu cynnwys. Dangosir y dadansoddiad hwn yn **Ffigwr 26** ac mae'n amlygu rhai cysylltiadau diddorol megis:

- Roedd materion perthynas, problemau yn y gwaith/ysgol neu ddigartrefedd/tai yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â phroblemau indecs yn y parth niwed uniongyrchol.
- Roedd unigrwydd/arwahanrwydd, ysbryd isel/iselder a phroblemau yn y gwaith yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â phroblemau indecs yn y parth nam.
- Roedd gwaith/ysgol, unigrwydd/arwahanrwydd a straen/gorbryder/panig yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â phroblemau indecs yn y parth iechyd meddwl.
- Roedd cam-drin domestig, straen/gorbryder/panig ac ysbryd isel/iselder yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â phroblemau indecs yn y parth cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol.

Ffigwr 26:

% o Bob Problem Indecs ym Mhob Parth

	Parth niwed uniongyrchol	Parth nam	Parth iechyd meddwl	Parth cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol
Problemau indecs yn y parth 'Niwed uniongyrchol'				
Hunanladdol		41%	49%	23%
Hunan-niweidio/Gorddos		45%	51%	20%
Cam-drin domestig		38%	44%	33%
Problemau indecs yn y parth 'Nam'				
Dryswch/ymddygiad rhyfedd	24%		54%	15%
Meddwdod	49%		47%	21%
Straen/gorbryder/panig	40%		77%	31%
Camddefnyddio Sylweddau	43%		46%	21%
Problemau indecs yn y parth 'Iechyd Meddwl'				
Ysbryd isel/Iselder	46%	61%		30%
Salwch meddwl	39%	54%		20%

Ffigwr 26:

% o Bob Problem Indecs ym Mhob Parth (Parhad dros y Ddalen)

Dementia	5%	33%		19%
Problemau indecs yn y parth 'Cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol'				
Dyled/Arian/ Budd-daliadau	45%	54%	65%	
Aflonyddu/bwlio	35%	42%	53%	
Unigrwydd/ arwahanrwydd	40%	62%	84%	
Mater yn ymwneud â pherthynas	58%	45%	52%	
Digartrefedd/tai	50%	52%	51%	
Gwaith/ysgol	58%	60%	86%	
Hunaniaeth rywedd	33%	33%	38%	

Un o brif amcanion triniwr galwadau gwasanaethau brys yw pennu pa gamau i'w cymryd ar sail amrywiaeth o nodweddion y mae sefyllfa'r galwr yn eu cyflwyno. Mae'r triniwr galwadau yn dewis ymateb yn seiliedig ar wybodaeth o ymatebion sy'n briodol neu ar gael. Gall triniwr galwadau mewn gwasanaethau brys fod yn fwy cyfarwydd, a gallu adnabod yr ymateb priodol yn fwy cyflym, mewn sefyllfaoedd penodol megis y rheiny sy'n gysylltiedig â'r parthau 'niwed uniongyrchol' ac 'iechyd meddwl', gan fod y rhain yn cyd-fynd yn agosach â swyddogaeth arferol gwasanaethau brys, sef achub bywydau neu drin salwch brys.


Gall triniwr galwadau fod yn llai cyfarwydd, a methu ag adnabod yr ymateb priodol mor gyflym, yn y parthau 'nam' a 'cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol'. Gellir gweld y gwahaniaeth hwn rhwng parthau yn y bariau wedi'u haroleuo'n goch yn **Ffigwr 27** dros y ddalen, sy'n dangos hyd cyfartalog galwadau mewn munudau ar gyfer y rheiny ag un broblem indecs ar gyfer pob parth.

Mae'n rhesymol tybio mai'r galwadau gyda sawl broblem indecs fyddai'r hiraf i'w datrys fodd bynnag, dengys Ffigwr 27 na wnaeth nifer y problemau indecs yn y parthau 'niwed uniongyrchol' neu 'iechyd meddwl' gynyddu na lleihau'n sylweddol hyd galwadau. O'i gymharu, arweiniodd cynnydd yn nifer y problemau indecs yn y parthau 'nam' a 'cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol' at hyd galwadau, ar gyfartaledd, yn lleihau.

Mae'r patrwm hwn o gysylltiad yn awgrymu na wnaeth problemau indecs ychwanegol yn y parthau 'niwed uniongyrchol' neu 'iechyd meddwl' effeithio ar allu'r triniwr galwadau i ddelio â galwadau yn gyflym. Fodd bynnag, yn y parthau 'nam', neu 'cymdeithasol/llesiant/amgylcheddol', bu i broblemau indecs ychwanegol hwyluso datrysiaid dros y ffôn cynt mewn gwirionedd. Mae'r patrwm hwn yn mynd yn groes i'r graen oni bai y gellir pennu lefel y risg ac angen yn yn gynt o ganlyniad i bresenoldeb problemau ychwanegol.

Ffigwr 27:

Hyd Cyfartalog Galwadau mewn Munudau yn ôl Nifer y Problemau Indecs ym Mhob Parth



27. Problem Indecs Benodol - Ysbryd Isel neu Iselder

27.1 Y Broblem Indecs

Gall teimlo'n drist, digalon neu isel eich ysbryd fod yn ymateb naturiol i ddigwyddiadau bywyd neu sefyllfaoedd, ond mae iselder yn wahanol gan ei fod yn tueddu i bara'n hwy ac yn fwy hollgynhwysol. Iselder yw un o'r problemau iechyd meddwl mwyaf cyffredin yn y DU⁹³. Mae pobl sydd ag iselder yn cael llawer o feddyliau negyddol a theimladau o euogrwydd a diffyg gwerth; maent yn aml yn barnu eu hunain ac nid oes ganddynt hyder⁹⁴.

Prif symptomau iselder yw teimlo'n 'isel' a cholli pleser ym mhethau a oedd unwaith yn bleserus. Cyfunir y symptomau hyn yn aml ag eraill megis, teimlo'n ddagreul, bod yn bigog, newidiadau i chwant bwyd, problemau cwsg, canolbwyntio gwael a chof gwael. Gall iselder fod yn ymateb aciwt i argyfwng uniongyrchol sy'n lleddfu heb unrhyw driniaeth neu ymyrraeth benodol, ond gall hefyd fod yn ddifrifol a phara'n hir. Gall iselder difrifol arwain at newidiadau sylweddol i allu person i ymdopi â'u bywyd bob dydd, eu gallu i ddatrys problemau a'u dealltwriaeth a hunanymwybyddiaeth, gan arwain at ymddygiad a all beri pryder i eraill.

Gall pobl sydd ag iselder wynebu risg gynyddol o hunanladdiad⁹⁵, hunan-niweidio⁹⁶ neu wylltineb⁹⁷, er mae'r ymddygiadau hyn yn brin o'i gymharu â'r cyfanswm o bobl sy'n dioddef o iselder. Mae deall y berthynas rhwng iselder, risg gynyddol o ganlyniadau andwyol a chyswllt â gwasanaethau brys yn bwysig wrth flaenoriaethu a dargyfeirio galwyr o'r fath yn briodol.

27.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'ysbryd isel' neu 'iselder' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio teimladau o ofid, tristwch neu hunanhyder isel, er na all diagnosis ffurfiol neu salwch iselhaol fod yn bresennol. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi eu bod, neu'r person yr oedd yr alwad ynghlwm â nhw, yn isel eu hysbryd neu ddigalon. Cofnododd cyfanswm o **3,288** o alwadau ysbryd isel neu iselder fel problem indecs.


27.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.8% (3,027) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 3,032 o alwadau a adnabu ysbryd isel neu iselder fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 28** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys fod galwadau ar eu huchaf o drwch blewyn ar ddydd Llun a dydd Iau. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 73% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 27% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 28:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Ysbryd Isel neu Iselder yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




27.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 100% (3,027) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad allan o 3,032 o alwadau a adnabu ysbryd isel neu iselder fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 29** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd ysbryd isel neu iselder fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau ysbryd isel neu iselder a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau ysbryd isel neu iselder yn is yn y bore ac ar ôl cyrraedd eu hanterth am 7pm yn lleihau yn fwy araf na galwadau eraill. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (57%) 'y tu allan i oriau', o 5pm tan 9am, ond roedd hyn yn llai na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 29:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Ysbryd Isel neu Iselder yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



27.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 11.8% (388) o'r 3,288 o alwadau, lle cofnodwyd ysbryd isel neu iselder fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 88.2% (2,900) o alwadau, lle cofnodwyd ysbryd isel neu iselder fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **66%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **62.6%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 3) Roedd gan **56.9%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **56.1%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **48%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **47.7%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 7) Roedd gan **42.3%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 8) Roedd gan **38.8%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 9) Roedd gan **38.1%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 10) Roedd gan **36.8%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 11) Roedd gan **36.1%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 12) Roedd gan **35.6%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 13) Roedd gan **28.5%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 14) Roedd gan **27.7%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 15) Roedd gan **26.5%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd
- 16) Roedd gan **21.2%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, ysbryd isel neu iselder yn broblem indecs hefyd

28. Problem Indecs Benodol – Salwch Meddwl

28.1 Y Broblem Indecs

Mae'r cysyniad salwch meddwl yn cwmpasu ystod eang o newidiadau i feddyliau, teimladau ac ymddygiadau sy'n peri gofid i'r unigolyn ac weithiau i eraill o'u hamgylch. Gall salwch meddwl gynnwys argyfwng tymor byr yn sgil newid i amgylchiadau bywyd a all gael effaith fawr neu fach. Gall salwch meddwl hefyd achosi anawsterau mynych sy'n creu argyfyngau ysbeidiol i berson, sydd fel arall yn gallu rheoli eu bywyd gyda pheth annibyniaeth. Gall salwch meddwl gynnwys cyflyrau tymor hwy megis sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol ac anhwylderau personoliaeth a all gael effaith fawr ar ansawdd bywyd ac annibyniaeth person ac arwain at unigrwydd, arwahanrwydd ac allgáu cymdeithasol sylweddol.

Gall salwch meddwl effeithio ar unrhyw un, ar unrhyw adeg yn eu bywydau. Mae gwahaniaethau demograffig fodd bynnag, yn nhermau bregusrwydd i iechyd meddwl, sut y mynegir iechyd meddwl, pa wasanaethau a geisir, pa wasanaethau sydd ar gael ac a gynigir a'r effaith ar eraill. Mae rhywedd, oedran, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, anabledd, anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd, amddifadedd, unigrwydd ac arwahanrwydd, i gyd yn ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl ac ymddygiad cysylltiedig, yn cynnwys ceisio cymorth.

Yn ôl astudiaeth Gymreig ar brofiadau andwyol yn ystod plentyndod neu ardddegau, dangoswyd bod 'cysylltiadau cryf' rhwng profiadau megis plentyn yn profi cam-drin domestig neu rieni yn gwahanu, neu fyw ag iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau yn y teulu â'r plentyn yna'n datblygu problemau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, trais, salwch meddwl ac iechyd corfforol⁹⁸. I lawer, mae stigma ynghlwm â salwch meddwl o hyd ac mae grwpiau penodol sy'n llai tebygol o gysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl mewn argyfwng. Mae dynion canol oed, yn benodol ac unigolion o rai grwpiau ethnig yn llai tebygol o ddatgelu neu drafod eu hiechyd meddwl neu geisio cymorth⁹⁹.

Mewn amgylchiadau o'r fath, gall person sy'n profi gofid llethol deimlo nad oes ganddynt neb i droi atynt na neb i'w ffonio oni bai am y gwasanaethau brys.

28.2 Trosolwg o'r Data

Y term 'salwch meddwl' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio cyflyrau iechyd sy'n effeithio ar ysbryd, ffordd o feddwl neu ymddygiad, er na all diagnosis ffurfiol fod yn bresennol.

Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt, neu'r person yr oedd yr alwad ynghlwm â nhw, ddiagnosis posib neu gyfredol o salwch meddwl, neu eu bod wedi cael un yn y gorffennol. Nid yw'r datganiadau hyn wedi'u dilysu ac ni ddylid cymryd y data hwn fel arwydd o gyffredinolrwydd iechyd meddwl ymhlith y boblogaeth. Cofnododd cyfanswm o **3,032** o alwadau salwch meddwl fel problem indecs.


28.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.8% (3,027) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 3,032 o alwadau a adnabu salwch meddwl fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 30** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd yn ôl y diwrnod o'r wythnos. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 74% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 26% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 30:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Salwch Meddwl yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



28.4 Amser o'r Dydd Galwadau


Llwyddodd cyfanswm o 99.7% (3,024) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad, allan o 3,032 o alwadau a adnabu salwch meddwl fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 31** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd salwch meddwl fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau iechyd meddwl â'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau iechyd meddwl yn uwch rhwng 11am a 4pm ac yna'n lleihau'n sylweddol, cyn codi am 9pm i gyd-fynd â galwadau eraill.

Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (59%) 'y tu allan i oriau', o 5pm tan 9am, ond roedd hyn yn llai na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 31:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Salwch Meddwl yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



28.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 13.8% (418) o'r 3,032 o alwadau, lle cofnodwyd salwch meddwl fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 86.2% (2,390) o alwadau, lle cofnodwyd salwch meddwl fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) **Roedd gan 43.9%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 2) **Roedd gan 40.4%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 3) **Roedd gan 40.1%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 4) **Roedd gan 39%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 5) **Roedd gan 38.1%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 6) **Roedd gan 37.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 7) **Roedd gan 34.2%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 8) **Roedd gan 31.8%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 9) **Roedd gan 31.5%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 10) **Roedd gan 30.9%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 11) **Roedd gan 30.6%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 12) **Roedd gan 30%** o alwadau lle mae **afionyddu neu fwlio** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 13) **Roedd gan 29.8%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 14) **Roedd gan 28.5%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 15) **Roedd gan 27.8%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd,
- 16) **Roedd gan 27.6%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, salwch meddwl yn broblem indecs hefyd.

29. Problem Indecs Benodol- Ymddygiad Hunanladdol

29.1 Y Broblem Indecs

Yn 2019, bu farw 330 o bobl drwy hunanladdiad yng Nghymru¹⁰⁰. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae astudiaethau wedi dangos, o'r bobl a fu farw drwy hunanladdiad, roedd 21% wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn y 12 mis cynt¹⁰¹. Mewn adolygiad o hunanladdiadau mewn un ddinas yn y DU, roedd un ym mhob deg o bobl wedi cysylltu â'r Heddlu yn y tri mis cyn eu marwolaeth¹⁰² gyda chanfyddiadau tebyg yn cael eu hadrodd mewn ardaloedd eraill¹⁰³.

Mae ffactorau sy'n gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad, megis dynion rhwng 45 a 49 oed ac ysgariadau ymhlith dynion¹⁰⁴. Mae gan yr Heddlu, mewn cydweithrediad ag asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, rôl bwysig i'w chwarae mewn strategaethau atal hunanladdiad fel y cydnabyddir gan y Coleg Plismona¹⁰⁵. Gall yr Heddlu adnabod a chyfeirio pobl sydd â meddyliau ac ymddygiadau hunanladdol nad ydynt yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl¹⁰⁶.

29.2 Trosolwg o'r Data

Y term 'ymddygiad hunanladdol' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio'r rheiny sy'n ystyried neu'n ceisio diweddu eu bywyd, er y gall fod yn anodd pennu bwriad, felly mae gorgyffwrdd â hunan-niweidio. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt, neu'r person yr oedd yr alwad ynghlwm â nhw, feddyliau hunanladdol neu eu bod yn arddangos ymddygiad hunanladdol. Cofnododd cyfanswm o **2,966** o alwadau ymddygiad hunanladdol fel problem indecs.


29.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.7% (2,958) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 2,966 o alwadau a adnabu ymddygiad hunanladdol fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 32** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys fod galwadau ar eu huchaf o drwch blewyn ar ddydd Mercher. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 73% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 27% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 32:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Salwch Meddwl yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




29.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.4% (2,949) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad, allan o 2,966 o alwadau a adnabu ymddygiad hunanladdol fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 33** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd ymddygiad hunanladdol fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau ymddygiad hunanladdol a'r cyfanswm galwadau yn yr ystod bod galwadau ymddygiad hunanladdol ar eu uchaf rhwng 7pm ac 8pm ac yn parhau ychydig yn uwch dros nos. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (63%) 'y tu allan i oriau', o 5pm tan 9am, ac roedd hyn yn uwch na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 33:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Ymddygiad Hunanladdol yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



29.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 19.4% (576) o'r 2,966 o alwadau, lle cofnodwyd ymddygiad hunanladdol fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 80.6% (2,390) o alwadau, lle cofnodwyd ymddygiad hunanladdol fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **47.7%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **41%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **34.6%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **33.3%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **31.9%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **31.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **30.4%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 8) Roedd gan **30.3%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd
- 9) Roedd gan **29.3%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd
- 10) Roedd gan **28.3%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **27.7%** o alwadau lle mae **camdefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **27.2%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 13) Roedd gan **27%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 14) Roedd gan **23.8%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 15) Roedd gan **23.2%** o alwadau lle mae **afloynyddu neu fwlio** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,
- 16) Roedd gan **16.4%** o alwadau lle mae **drysych neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, ymddygiad hunanladdol yn broblem indecs hefyd,

30. Problem Indecs Benodol - Dryswch ac Ymddygiad Rhyfedd

30.1 Y Broblem Indecs

Mae dryswch yn effeithio ar sut mae person yn meddwl, gweld y byd o'u hamgylch, a chofio pethau. Gall dryswch fod yn symptom salwch corfforol megis dementia, haint, anaf i'r pen, diabetes neu strôc. Gall dryswch fod yn oblygiad yfed alcohol neu gymryd cyffuriau a gall hefyd fod yn symptom o salwch meddwl megis gorbryder, gwallgofrwydd neu iselder.

Prif arwyddion dryswch yw newidiadau sydyn mewn ymwybyddiaeth, gan y gall person gyda dryswch fynd yn gysglyd a ffwndrus iawn neu ymddwyn yn ddigalon a nerfus iawn yn sydyn. Gall pobl sy'n sylwi ar ymddygiad dryslyd neu anarferol ofni'r ymddygiad 'rhyfedd' hwn neu boeni am lesiant yr unigolion, yn enwedig os nad oes achos gweladwy.

30.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'dryswch' ac 'ymddygiad rhyfedd' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio ymddygiad anghyfarwydd neu anarferol. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi eu bod, neu'r person yr oedd yr alwad ynghlwm â nhw, yn ddryslyd neu'n arddangos ymddygiad rhyfedd.

Cofnododd cyfanswm o **2,939** o alwadau dryswch neu ymddygiad rhyfedd fel problem indecs.


30.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.9% (2,937) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 2,939 o alwadau a adnabu dryswch neu ymddygiad rhyfedd fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 34** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys gyfran is ar ddydd Sul a galwadau ar eu huchaf o drwch blewyn ar ddydd Iau. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 73% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 27% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 34:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Dryswch neu Ymddygiad Rhyfedd yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




30.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 100% (2,939) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad a adnabu dryswch neu ymddygiad rhyfedd fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 35** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd dryswch neu ymddygiad rhyfedd fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau dryswch neu ymddygiad rhyfedd a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau dryswch neu ymddygiad rhyfedd yn uwch o hanner dydd tan 5pm, yna'n is rhwng 5pm a 9pm. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (59%) 'y tu allan i oriau', o 5pm tan 9am, ond roedd hyn yn llai na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 35:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Dryswch neu Ymddygiad Rhyfedd yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



30.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 23.2% (682) o'r 2,939 o alwadau, lle cofnodwyd dryswch neu ymddygiad rhyfedd fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 76.8.2% (2,257) o alwadau, lle cofnodwyd dryswch neu ymddygiad rhyfedd fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod.

- 1) **Roedd gan 40.9%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 2) **Roedd gan 40.1%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 3) **Roedd gan 33.9%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 4) **Roedd gan 33.6%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 5) **Roedd gan 33.1%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 6) **Roedd gan 32.9%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 7) **Roedd gan 32.3%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 8) **Roedd gan 32%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 9) **Roedd gan 31.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 10) **Roedd gan 29.4%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 11) **Roedd gan 29.1%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 12) **Roedd gan 27.9%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 13) **Roedd gan 21.9%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd
- 14) **Roedd gan 20.4%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 15) **Roedd gan 19%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd,
- 16) **Roedd gan 16.3%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, ddryswch neu ymddygiad rhyfedd yn broblem indecs hefyd.

31 Problem Indecs Benodol - Hunan-niweidio neu Orddos

31.1 Y Broblem Indecs

Cysylltir hunan-niweidio â hunanladdiad, ond yn aml nid yw hunan-niweidio wedi'i fwriadu i ddiweddu bywyd. Cysylltir hunan-niweidio yn aml â hunanhyder isel a thrawma yn y gorffennol a gall fod yn strategaeth ymdopi yn wyneb gofid llethol. Gall hunan-niweidio fod yn ffordd o ddianc rhag neu osgoi poen emosiynol gan y gall ryddhau hormonau sy'n cynhyrchu teimlad esmwythol neu leddfodol neu beri cyflwr newidiedig lle gall person deimlo'n rhydd rhag poen seicolegol yn ogystal â chorfforol. I rai gall ddilysu eu hachos dros geisio cymorth os credant nad yw eu pryderon emosiynol ar eu pen eu hunain yn ddilys neu deilwng. Efallai na fydd hunan-niweidio bob amser yn cario bwriad hunanladdol, ond gallai'r arfer o hunan-niweidio fod yn angheuol, gan arwain at hunanladdiad anfwriadol.

Hunanladdiad yw un o'r achosion mwyaf cymhleth i weithwyr iechyd a gwasanaethau brys, oherwydd gellir ei ddiystyru fel ffordd o 'fynnu sylw' ond dylid ymateb i unigolion sy'n hunan-niweidio gyda thosturi, empathi a charedigrwydd.¹⁰⁷

31.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'hunan-niweidio' a 'gorddos bwriadol' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio'r rheiny sydd wedi, neu'n achosi, anafiadau neu niwed bwriadol iddynt eu hunain.

Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi eu bod wedi hunan-niweidio neu gymryd gorddos yn fwriadol, neu fod y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch wedi nodi bwriad neu'n arddangos arwyddion neu ymddygiadau, a allai fod yn arwydd o hunan-niweidio neu orddos bwriadol. Cofnododd cyfanswm o **2,081** o alwadau hunan-niweidio neu orddos bwriadol fel problem indecs.


31.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 96.3% (2,003) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 2,081 o alwadau a adnabu hunan-niweidio neu orddos bwriadol fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 36** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys fod galwadau ar eu huchaf ar ddydd Mercher. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 72% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos a 28% o alwadau ar benwythnos, yr un gyfran â'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 36:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Hunan-niweidio neu Orddos yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



31.4 Amser o'r Dydd Galwadau


Llwyddodd cyfanswm o 96% (1,998) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad allan o 2,081 o alwadau, a adnabu hunan-niweidio neu orddos bwriadol fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 37** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd hunan-niweidio neu orddos bwriadol fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau hunan-niweidio neu orddos bwriadol a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau hunan-niweidio neu orddos yn is yn ystod y dydd, yna'n cyrraedd eu hanterth rhwng 10pm ac 11pm ac yn uwch yn ystod y nos.

Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (65%) 'y tu allan i oriau', o 5pm tan 9am, ac roedd hyn yn uwch na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 37:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Hunan-niweidio neu Orddos yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



31.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 16.8% (349) o'r 2,081 o alwadau, lle cofnodwyd hunan-niweidio neu orddos bwriadol fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 83.2% (1,732) o alwadau, lle cofnodwyd hunan-niweidio neu orddos bwriadol fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **35%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **33.5%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **28.6%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **27.1%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **26.8%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **25.6%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **23.7%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd
- 8) Roedd gan **23.4%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd
- 9) Roedd gan **22.4%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 10) Roedd gan **21.8%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **20.7%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **20.3%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 13) Roedd gan **19.7%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 14) Roedd gan **19.1%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 15) Roedd gan **16.8%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd,
- 16) Roedd gan **13.4%** o alwadau lle mae **dryswch** neu **ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, hunan-niweidio neu orddos bwriadol yn broblem indecs hefyd.

32. Problem Indecs Benodol - Meddwdod

32.1 Y Broblem Indecs

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Alcohol¹⁰⁸ wedi disgrifio alcohol fel problem sy'n gosod 'straen sylweddol a diangen' ar wasanaethau brys. Daeth arolwg gan y Sefydliad i'r casgliad yn 2015, fod 80% o arestiadau ar y penwythnos yn gysylltiedig ag alcohol, cyflawnwyd ychydig dros hanner o droseddau treisgar dan ddyllanwad alcohol a threuliwyd 53% o amser yr heddlu yn delio â digwyddiadau yn gysylltiedig ag alcohol. Adroddasant fod oddeutu 35% o deithiau ambiwlans a 37% o amser ambiwlans yn cael eu treulio yn delio â digwyddiadau yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru a Lloegr.

Gall yfed symiau mawr o alcohol achosi newidiadau i ffordd o feddwl, emosiwn, ymddygiad, a chydlyniant corfforol. Mae cysylltiadau cryf rhwng alcohol a thrais o ganlyniad i alcohol yn achosi pobl i golli rheolaeth arferol o ysgogiadau, ysfeydd, ac emosiynau a llai o allu i farnu a datrys problemau. Gall colli rheolaeth fel hyn arwain at ofid, aflonyddwch, gwylltineb ac ymddygiadau hunanladdol. Gall meddwi'n ddifrifol ar alcohol beryglu bywyd, ac mae'n gymaint o argyfwng iechyd corfforol ag argyfwng iechyd meddwl.

Yng Nghymru, yn 2019, ystyriwyd 2% o oedolion yn 'yfwyr a niweidir' a 16% arall yn 'yfwyr mewn perygl'¹⁰⁹. Mae ystod o strategaethau wedi cael eu sefydlu gan yr Heddlu, y GIG a phartneriaid megis 'bugeiliaid y stryd'¹¹⁰ a 'chanolfannau trin alcohol'¹¹¹ sy'n caniatáu i'r heddlu a'r gwasanaethau brys ddarparu cymorth i unigolion meddw yn ddiogel heb droi at arestio neu ddefnyddio adrannau achosion brys.

32.2 Trosolwg o'r Data

Y term 'meddwdod' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio unigolion gyda nam gwybyddol a/neu gorfforol difrifol o ganlyniad i yfed alcohol er mae gorgyffwrdd â chamddefnyddio sylweddau, dryswch ac ymddygiad rhyfedd. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi eu bod yn feddw, neu gallai'r person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch fod yn feddw. Cofnododd cyfanswm o **1,367** o alwadau meddwdod fel problem indecs.


32.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.9% (1,365) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 1,367 o alwadau a adnabu meddwdod fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 38** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys gyfran is ar ddydd Llun a galwadau ar eu huchaf ar ddydd Sadwrn. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 70% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 30% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau, y gyfran fwyaf ar y penwythnos o unrhyw broblem indecs.

Ffigwr 38:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Meddwdod yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




32.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.6% (1,361) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad allan o 1,367 o alwadau a adnabumeddwdod fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 39** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd meddwdod fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau meddwdod a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau meddwdod yn is yn ystod y dydd, yna'n cyrraedd eu hanterth rhwng 7pm a 9pm ac yn uwch yn ystod y nos. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (64%) 'y tu allan i oriau', o 5pm tan 9am, ac roedd hyn yn uwch na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 39:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Meddwdod yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



32.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 11.2% (153) o'r 1,367 o alwadau, lle cofnodwyd meddwdod fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 88.8% (1,214) o alwadau, lle cofnodwyd meddwdod fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) **Roedd gan 27.8%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 2) **Roedd gan 17.1%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 3) **Roedd gan 15.6%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 4) **Roedd gan 14.8%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 5) **Roedd gan 14.5%** o alwadau lle mae **unigrwydd neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 6) **Roedd gan 14.2%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 7) **Roedd gan 13.9%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 8) **Roedd gan 13.5%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 9) **Roedd gan 13.4%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 10) **Roedd gan 13%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 11) **Roedd gan 11.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 12) **Roedd gan 9.7%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 13) **Roedd gan 9%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 14) **Roedd gan 7.3%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 15) **Roedd gan 4.8%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd,
- 16) **Roedd gan 2.1%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, feddwdod yn broblem indecs hefyd.

33. Problem Indecs Benodol – Straen, Gorbryder neu Banig

33.1 Y Broblem Indecs

Gorbryder yw un o'r problemau iechyd meddwl mwyaf cyffredin yn y DU¹¹². Mae gorbryder yn cynnwys cael un, neu sawl, pryder gwahanol sy'n eithafol ac yn anghymesur â sefyllfa benodol, a chael anhawster i reoli eich pryderon. Gall person sydd ag anhwylder gorbryder hefyd deimlo'n bigog a chael symptomau corfforol megis anesmwythder, blinder, trafferth i ganolbwyntio neu gysgu. Mae sawl cyflwr iechyd meddwl sy'n cynnwys gorbryder fel un o'r prif symptomau megis anhwylder gorfodaeth obsesiynol, anhwylder panig, anhwylder straen ôl-drawmatig ac anhwylder personoliaeth.

Gall pobl sydd ag anhwylderau gorbryder weithiau brofi meddyliau llethol a symptomau corfforol sydyn megis curiad calon cyflym, byr o wynt, chwysu a chrychguriadau y gellir eu camgymryd am salwch arall. Gall pobl sydd â gorbryder wynebu risg gynyddol o hunanladdiad neu hunan-niweidio. Er bod yr ymddygiadau hyn yn brin o'i gymharu â'r nifer o bobl sy'n dioddef o orbryder, efallai fod pobl mewn cyflyrau mwy eithafol yn fwy tebygol o ffonio'r gwasanaethau brys neu beri pryder i bobl eraill a fydd yn ffonio'r gwasanaethau brys ar eu rhan.

33.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'straen', 'gorbryder' neu 'banig' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio'r namau hyn a all gael symptomau ac effeithiau corfforol a seicolegol, er gall y termau hyn fod yn gyffredinoliadau a gall fod yna orgyffwrdd rhwng y tri. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi eu bod dan straen, yn bryderus neu'n cael pwl o banig, neu gallai'r person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch deimlo felly. Cofnododd cyfanswm o **1,250** o alwadau straen, gorbryder neu banig fel problem indecs.


33.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.5% (1,244) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 1,250 o alwadau a adnabu straen, gorbryder neu banig fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 40** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys gyfran is ar ddechrau'r wythnos gyda chyfran uwch ar ddydd Iau, Gwener a Sadwrn. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 72% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos a 28% o alwadau ar benwythnos, yr un gyfran â'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 40:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Straen, Gorbryder neu Banig yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




33.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 98.6% (1,233) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad, allan o 1,250 o alwadau a adnabu straen, gorbryder neu banig fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 41** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd straen, gorbryder neu banig fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau straen, gorbryder neu banig a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau straen, gorbryder neu banig yn is yn ystod y prynhawn, yna'n codi'n sydyn i fod ar eu hanterth rhwng 6pm a 7pm a lleihau cyn 9pm. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (65%) 'y tu allan i oriau', ac roedd hyn yn uwch na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 41:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Straen, Gorbryder neu Banig yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



33.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 7.5% (94) o'r 1,250 o alwadau, lle cofnodwyd straen, gorbryder neu banig fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 92.5% (1,156) o alwadau, lle cofnodwyd straen, gorbryder neu banig fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) **Roedd gan 32.1%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 2) **Roedd gan 30%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 3) **Roedd gan 23.8%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 4) **Roedd gan 23%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 5) **Roedd gan 22.7%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 6) **Roedd gan 20%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 7) **Roedd gan 19.3%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 8) **Roedd gan 16.3%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 9) **Roedd gan 16.2%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 10) **Roedd gan 12.9%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 11) **Roedd gan 12.2%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 12) **Roedd gan 10.8%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 13) **Roedd gan 10.2%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 14) **Roedd gan 9.2%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 15) **Roedd gan 8.9%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd,
- 16) **Roedd gan 3.3%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, straen, gorbryder neu banig yn broblem indecs hefyd.

34.1 Problem Indecs Benodol-Perthnasoedd

34.2 Y Broblem Indecs

Gall materion perthnasoedd gwmpasu dynameg teulu treisgar, camfanteisio, gwahanu neu dddidymu. Gall pobl sy'n profi neu'n gweld materion perthnasoedd ofni neu boeni am ddiogelwch eu hunain neu eraill. Gall perthnasoedd effeithio ar iechyd meddwl person a gall rhai problemau iechyd meddwl megis iselder neu orbryder ddylanwadu ar a yw person yn teimlo eu bod yn gallu rhyngweithio a chysylltu ag eraill. Golyga hyn fod datblygu perthnasoedd a chymdeithasu mewn ffyrdd traddodiadol yn gallu bod yn heriol i rai pobl¹¹³.

Gall materion perthnasoedd effeithio ar bob oed, canfu arolwg mai'r broblem unigol fwyaf i blant sy'n cysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl oedd materion perthnasoedd teuluol¹¹⁴. Mae astudiaethau wedi canfod bod rhyngweithiadau a pherthnasoedd cymdeithasol negyddol, yn enwedig â phartneriaid/gwŷr neu wragedd, yn cynyddu'r risg o iselder, gorbryder a meddyliau hunanladdol^{115,116}.

34.3 Trosolwg o'r Data

Y term 'perthynas' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio pryderon, anawsterau, ofnau, bygythiadau neu bwysau rhyngpersonol. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt, neu'r person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch, broblem gyda pherthynas. Cofnododd cyfanswm o **1,026** o alwadau perthnasoedd fel problem indecs.




34.4 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 100% (1,026) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad a adnabu perthnasoedd fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 42** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys gyfran is ar ddydd Iau a dydd Sadwrn gyda chyfran uwch ar ddydd Mawrth a dydd Gwener. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 73% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 27% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 42:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Perthnasoedd yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




34.5 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.9% (1,025) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad a adnabu'perthnasoedd' fel y broblem indecs. Dengys **Ffigwr 43** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd perthnasoedd fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau perthnasoedd a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau perthnasoedd yn uwch canol bore ac yna'n cyrraedd eu hanterth rhwng 7pm ac 8pm. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (59%) 'y tu allan i oriau', ond roedd hyn yn llai na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 43:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Perthnasoedd yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



34.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 9.1% (93) o'r 1,026 o alwadau, lle cofnodwyd perthnasoedd fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 90.9% (933) o alwadau, lle cofnodwyd perthnasoedd fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) **Roedd gan 25.7%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 2) **Roedd gan 22%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 3) **Roedd gan 20.8%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 4) **Roedd gan 19.1%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 5) **Roedd gan 17.8%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 6) **Roedd gan 14%** o alwadau lle mae **camdefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 7) **Roedd gan 13.3%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 8) **Roedd gan 11.7%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 9) **Roedd gan 11%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 10) **Roedd gan 10.2%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 11) **Roedd gan 10.1%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 12) **Roedd gan 9.7%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 13) **Roedd gan 9.6%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 14) **Roedd gan 8.9%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 15) **Roedd gan 4.8%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd,
- 16) **Roedd gan 2.1%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, berthnasoedd yn broblem indecs hefyd.

35. Problem Indecs Benodol – Camddefnyddio Sylweddau

35.1 Y Broblem Indecs

Gall camddefnyddio sylweddau gynnwys cyffuriau anghyfreithlon heb eu presgripsiynu yn ogystal â chamddefnyddio meddyginiaethau wedi'u presgripsiynu, yn enwedig y rheiny sy'n effeithio ar hwyliau a chyflwr meddwl. Mae'r berthynas rhwng iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn gymhleth ac amlwynebog. Gall rhai cyffuriau a gamddefnyddir beri cyflyrau newidiedig i'r fath raddau hyd nes eu bod yn arwain at nam ar y meddwl ac emosiwn lle collir cysylltiad â realiti allanol. Er y gall mynd ar draul cyflyrau newidiedig o'r fath fod yn un o'r cymhelliannau dros gamddefnyddio sylweddau, er enghraifft defnyddio cyffuriau rhithbair i beri rhithganfyddiadau ac emosiynau dwysach, gall cyflyrau o'r fath fod yn hynod ofidus hefyd. Un goblygiad posib camddefnyddio sylweddau yw seicosis wedi'i ysgogi gan gyffuriau, cyflwr lle mae'r person yn profi rhithweledigaethau, syniadau rhithiol a chredoau paranoiaidd ynghyd ag ymddygiad anhrefnus. Mae seicosis wedi'i ysgogi gan gyffuriau wedi cael ei gysylltu â meddyliau hunanladdol, ymddygiad peryglus a threisgar, cyfnod yn yr ysbyty, ac arestiadau. Gall pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl gamddefnyddio sylweddau fel ffordd o leddfu eu gofid, er efallai mai'r canlyniad yn y pen draw fydd dirywiad cyflym yn eu ffordd o feddwl, emosiynau ac ymddygiad. Gall effeithiau camddefnyddio sylweddau, gyda phroblemau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes neu hebddynt, ysgogi'r fath newidiadau i ffordd o feddwl hyd nes eu bod yn peri gofid ac ymddygiad pryderus cynyddol.

Gall y newidiadau hyn arwain at y person, neu'r rheiny o'u hamgylch, yn cysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau ambiwlans i ddelio ag argyfwng uniongyrchol yn cynnwys aflonyddwch, gwylltineb neu ymddygiadau hunanladdol. Canfu Arolwg Troseddau diweddar ar gyfer Cymru a Lloegr fod oddeutu 9.4% o oedolion rhwng 16 a 59 oed a 20% o oedolion rhwng 16 a 24 oed wedi cymryd cyffur yn y flwyddyn ddiwethaf, tra mae marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru ymhlith yr uchaf yng Nghymru a Lloegr¹¹⁷. Yn ystod 9 mis cyntaf 2019, gwnaethpwyd dros 20,000 o atgyfeiriadau i wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau yng Nghymru¹¹⁸. Fel gyda hunanladdiad, dynion canol oed yw'r genhedlaeth a'r rhywedd sydd fwyaf tebygol o farw oherwydd gwenwyn cyffuriau, er gwaethaf eu lefelau is o gamddefnyddio cyffuriau a adroddwyd. Gall hyn fod yn gysylltiedig â materion yn ymwneud ag iechyd meddwl gwael, dibyniaeth, ansefydlogrwydd ariannol, tloidi a llesiant cymdeithasol¹¹⁹.

35.2 Trosolwg o'r Data

Y term 'camddefnyddio sylweddau' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio dibyniaeth neu ymddygiad anarferol o ganlyniad i chwistrellu neu dreulio sylweddau neu feddyginiaethau cyfreithlon neu anghyfreithlon. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt broblemau yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau, neu fod gan y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch broblemau o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **772** o alwadau camddefnyddio sylweddau fel problem indecs.


35.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.9% (771) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 772 o alwadau a adnabu camddefnyddio sylweddau fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 44** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys gyfran is ar ddydd Llun a chyfran uwch ar ddydd Sadwrn. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 70% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 30% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau, un o'r cyfrannau mwyaf ar y penwythnos o unrhyw broblem indecs.

Ffigwr 44:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Camddefnyddio Sylweddau yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




35.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 99.6% (769) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad allan o 772 o alwadau a adnabu 'camddefnyddio sylweddau' fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 45** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd camddefnyddio sylweddau fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau camddefnyddio sylweddau a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau camddefnyddio sylweddau yn uwch yn ystod y dydd ac ar eu hanterth yn hwyrach, rhwng 10pm a hanner nos, cyn lleihau'n sydyn. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (58%) 'y tu allan i oriau', ond roedd hyn yn llai na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 45:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Camddefnyddio Sylweddau yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



35.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 9.3% (72) o'r 772 o alwadau, lle cofnodwyd camddefnyddio sylweddau fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 90.7% (700) o alwadau, lle cofnodwyd camddefnyddio sylweddau fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) **Roedd gan 15.7%** o alwadau lle mae **meddwdod yn broblem** indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 2) **Roedd gan 11.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 3) **Roedd gan 10.5%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 4) **Roedd gan 7.8%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 5) **Roedd gan 7.8%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 6) **Roedd gan 7.7%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 7) **Roedd gan 7.3%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 8) **Roedd gan 7.2%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 9) **Roedd gan 7%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd
- 10) **Roedd gan 6.6%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 11) **Roedd gan 5%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 12) **Roedd gan 4.8%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 13) **Roedd gan 4.5%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 14) **Roedd gan 4.1%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 15) **Roedd gan 3%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd,
- 16) **Roedd gan 0.6%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, gamddefnyddio sylweddau yn broblem indecs hefyd.

36. Problem Indecs Benodol - Unigrwydd ac Arwahanrwydd

36.1 Y Broblem Indecs

Nid bod ar eich pen eich hun sy'n achosi unigrwydd, ond y teimlad annymunol goddrychol sy'n deillio o ddiffyg cyfatebiaeth rhwng y lefel a ddymunir o berthnasoedd cymdeithasol ystyrlon person, a'r hyn y credant sydd ganddynt.

Dangoswyd bod y teimlad goddrychol parhaus o unigrwydd yn ddangosydd annibynnol cryf o sawl newid seicolegol a chanlyniadau iechyd gwael¹²⁰. Gall unigrwydd arwain at anhwylderau seiciatrig amrywiol fel iselder, camddefnyddio alcohol, problemau cwsg ac anhwylderau personoliaeth¹²¹. Awgryma astudiaethau diweddar fod unigrwydd yn gysylltiedig â chynnydd o 26% yn y risg o farw'n gynnar gan ei osod mewn cynghrair tebyg i ffactorau risg adnabyddus eraill megis ysmegu a gordewdra¹²².

Mae astudiaethau wedi dangos bod unigrwydd yn gysylltiedig yn benodol ag iechyd corfforol a meddwl salach ymhlith pobl hŷn. Yn benodol, mae unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn gysylltiedig â phrofi dementia, ac mae pobl hŷn â lefel uchel o unigrwydd ddwywaith mor debygol o ddatblygu afiechyd Alzheimer o'i gymharu â'r rheiny sydd â lefel is o unigrwydd¹²³. Efallai y bydd pobl unig yn ffonio'r Heddlu am gwmniaeth neu oherwydd ofn neu banig.

36.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'unigrwydd' ac 'arwahanrwydd' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio problemau gydag unigrwydd, pellenigrwydd ac anhygyrchedd, naill ai drwy ddewis neu amgylchiadau. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt broblemau yn gysylltiedig ag unigrwydd neu arwahanrwydd, neu fod gan y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch problemau o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **601** o alwadau unigrwydd neu arwahanrwydd fel problem indecs.


36.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 100% (601) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad, allan o 601 o alwadau a adnabu 'unigrwydd neu arwahanrwydd' fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 46** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys gyfran is ar ddydd Sadwrn a dydd Sul a chyfran uwch ar ddydd Mercher a dydd Iau. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 76% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos o'i gymharu â 72% o'r cyfanswm galwadau a derbyniwyd 24% o alwadau ar benwythnos o'i gymharu â 28% o'r cyfanswm galwadau, un o'r cyfrannau isaf ar y penwythnos o unrhyw broblem indecs.

Ffigwr 46:

% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Unigrwydd neu Arwahanrwydd yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




36.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 98.8% (595) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad allan o 601 o alwadau a adnabu 'unigrwydd neu arwahanrwydd' fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 47** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd unigrwydd neu arwahanrwydd fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau unigrwydd neu arwahanrwydd a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau unigrwydd neu arwahanrwydd yn is yn ystod y prynhawn, yna'n codi i fod ar eu hanterth rhwng 6pm ac 8pm. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (66%) 'y tu allan i oriau', o 5pm tan 9am, ac roedd hyn yn uwch na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'. Dyma'r gwahaniaeth cyfrannol uchaf o unrhyw broblem indecs.

Ffigwr 47:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Unigrwydd neu Arwahanrwydd yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



36.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 3.5% (21) o'r 601 o alwadau, lle cofnodwyd unigrwydd neu arwahanrwydd fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 96.5% (580) o alwadau, lle cofnodwyd unigrwydd neu arwahanrwydd fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **19.0%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **18.0%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **16.5%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **14.4%** o alwadau lle mae **straen/gorbryder neu banig** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **14.0%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **13.6%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **10.4%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 8) Roedd gan **7.8%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 9) Roedd gan **7.8%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 10) Roedd gan **6.9%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **6.8%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **6.4%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 13) Roedd gan **6.3%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 14) Roedd gan **5.6%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 15) Roedd gan **5.3%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd,
- 16) Roedd gan **3.5%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, unigrwydd neu arwahanrwydd yn broblem indecs hefyd.

37. Problem Indecs Benodol - Cam-drin Domestig

37.1 Y Broblem Indecs

Mae cam-drin domestig yn cyfeirio at gam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol ac ymddygiadau sy'n rheoli, fel rheol gan bartner presennol neu gyn-bartner ond gallant hefyd fod yn aelodau o'r teulu. Mae astudiaethau wedi dangos bod merched sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn wynebu teirgwaith y risg arferol o ddatblygu salwch meddwl¹²⁴. Cysylltir cam-drin domestig ag iselder, gorbryder a chamddefnyddio sylweddau¹²⁵. Mae amlygiad i gam-drin domestig yn cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl plant ac mae nifer o astudiaethau wedi canfod cysylltiadau cryf â chanlyniadau addysgol salach a lefelau uwch o broblemau iechyd meddwl¹²⁶.

Canfu adolygiad fod strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' Cymru yn ymddangos yn 'fwy blaengar' yn ei hymateb i gam-drin domestig na gwledydd eraill y DU, gan ei bod yn cydnabod yn benodol y flaenoriaeth o sicrhau bod y rheiny sy'n gweithio o fewn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu hyfforddi i ddeall sut y gall cam-drin domestig a thrais rhywiol effeithio ar iechyd meddwl pobl¹²⁷. Efallai y bydd pobl sy'n dioddef cam-drin domestig yn ffonio gwasanaethau brys oherwydd gofid emosiynol neu anaf corfforol, neu oherwydd eu bod yn ofni am eu llesiant eu hunain, neu lesiant aelod o'r teulu. Efallai y bydd cymdogion, ffrindiau, teulu neu eraill yn ffonio hefyd o ganlyniad i bryder ynghylch diogelwch unigolyn.

37.2 Trosolwg o'r Data


Y term 'cam-drin domestig' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio unrhyw fath o ymddygiad sy'n rheoli, yn bwlio, yn bygwth neu'n dreisgar rhwng pobl mewn perthynas. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt broblemau yn gysylltiedig â cham-drin domestig, neu fod gan y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch broblemau o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **548** o alwadau 'cam-drin domestig' fel problem indecs.

37.3 Diwrnod o'r Wythnos Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 100% (548) o alwadau i gofnodi'r diwrnod o'r wythnos y derbyniwyd yr alwad a adnabu cam-drin domestig fel problem indecs.

Dengys **Ffigwr 48** y gyfran o alwadau a dderbyniwyd fesul diwrnod yr wythnos a dengys gyfran is ar ddydd Mawrth a dydd Sadwrn a chyfran uwch ar ddydd Iau a dydd Gwener. Dengys y ffigwr y derbyniwyd 72% o alwadau ar ddiwrnod o'r wythnos a 28% o alwadau ar benwythnos, yr un gyfran â'r cyfanswm galwadau.

Ffigwr 48:
% y Galwadau yn ôl Diwrnod o'r Wythnos - Cam-drin Domestig yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau




37.4 Amser o'r Dydd Galwadau

Llwyddodd cyfanswm o 100% (548) o alwadau i gofnodi'r amser o'r dydd y derbyniwyd yr alwad a adnabu 'cam-drin domestig' fel problem indecs. Dengys **Ffigwr 49** amser o'r dydd galwadau lle cofnodwyd cam-drin domestig fel problem indecs o'i gymharu â'r cyfanswm galwadau, a ddangosir o 6am i ddangos galwadau dros nos yn well.

Amlyga'r ffigwr amrywiad rhwng y galwadau cam-drin domestig a'r cyfanswm galwadau yn yr ystyr bod galwadau cam-drin domestig ar eu hanterth am hanner dydd, yn gostwng yn ystod y prynhawn, yna'n uwch yn ystod y nos. Digwyddodd cyfran uwch o alwadau (64%) 'y tu allan i oriau', ac roedd hyn yn uwch na'r gyfran o'r cyfanswm galwadau (61%) a dderbyniwyd 'y tu allan i oriau'.

Ffigwr 49:

% y Galwadau yn ôl Amser o'r Dydd - Cam-drin Domestig yn Erbyn y Cyfanswm Galwadau



37.5 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 14.1% (77) o'r 548 o alwadau, lle cofnodwyd cam-drin domestig fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 85.9% (471) o alwadau, lle cofnodwyd cam-drin domestig fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **13.7%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **9.5%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **6.3%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **5.6%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **5.6%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **5.3%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **5.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 8) Roedd gan **5.1%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 9) Roedd gan **5%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 10) Roedd gan **5%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **4.8%** o alwadau lle mae **unigrwydd neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **4.5%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 13) Roedd gan **4.4%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 14) Roedd gan **4.4%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,
- 15) Roedd gan **2.1%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd,

Roedd gan 0% o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, gam-drin domestig yn broblem indecs hefyd.

38. Problem Indecs Benodol - Dementia

38.1 Y Broblem Indecs

Rhagwelir y bydd dros 55,000 o bobl yn dioddef o dementia yng Nghymru erbyn 2021. Amcangyfrifir bod cyfraddau diagnosis yng Nghymru oddeutu 44%, a olyga y gall dros 30,000 o bobl yng Nghymru fod yn byw â dementia sydd heb gael diagnosis¹²⁸. Gall pobl hŷn, sy'n fwy tebygol o gael dementia, ei chael hi'n anodd 'deall neu ddefnyddio'r system gofal iechyd'¹²⁹. Efallai y bydd y rheiny sydd â symptomau dementia yn fwy agored i gam-drin emosiynol, corfforol neu ariannol¹³⁰.

Ymhlith symptomau sawl anhwylder niwrolegol datblygol, y gellir eu hystyried fel dementia, mae gwyltineb, encilio, crwydro, dryswch, lleferydd aneglur neu ailadroddus ac ymddygiad anarferol a all beri gofid i'r person eu hun neu eraill, codi ofn arnynt neu gael ei gamddeall ganddynt.

38.2 Trosolwg o'r Data

Y term 'dementia' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio unrhyw fath o broblem sy'n gysylltiedig neu a all fod yn gysylltiedig ag anhwylder niwrolegol datblygol. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt anawsterau yn gysylltiedig â dementia, neu fod gan y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch anawsterau o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **334** o alwadau dementia fel problem indecs.

Y gyfran o broblemau indecs a gofnodwyd fel dementia oedd 1.6% o'r cyfanswm problemau indecs a llai na 500 o alwadau, felly byddai cynnwys manylion ynglŷn â pha ddiwrnod o'r wythnos neu ba amser o'r dydd y gwnaethpwyd y galwadau hyn yn gamarweiniol yn ystadegol.

38.3 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 13.5% (45) o'r 334 o alwadau, lle cofnodwyd dementia fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 86.5% (289) o alwadau, lle cofnodwyd dementia fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **9.2%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **6.4%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **4.6%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **4.5%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **3.7%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **3.3%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **1.4%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 8) Roedd gan **1.3%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 9) Roedd gan **1.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 10) Roedd gan **0.9%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **0.7%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **0.5%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 13) Roedd gan **0.4%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd,
- 14) Roedd gan **0.3%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd.

Roedd gan **0%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd neu waith/ysgol** yn broblem indecs, dementia yn broblem indecs hefyd.

39. Problem Indecs Benodol – Dyled, Arian, Budd-daliadau

39.1 Y Broblem Indecs

Amcangyfrifir bod gan oddeutu 3 miliwn o bobl yn y DU broblemau dyled difrifol. Mae pryderon am ddyled, arian, budd-daliadau neu gyflogaeth ymhlith y prif resymau dros alwadau i'r Samariaid¹³¹. Mae gorbryder, iselder ac anhwylderau meddwl cyffredin eraill yn fwy cyffredin ymhlith unigolion mewn dyled¹³². Mae lefelau incwm isel wedi cael eu cysylltu â gofid seicolegol¹³³, iselder^{134,135}, a hunanladdiad¹³⁶. Canfu astudiaeth yn 2020 fod pobl â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol na gweddill y boblogaeth o fod yn derbyn budd-dal. Canfu'r astudiaeth fod lleihad mewn lefelau budd-dal 'dros y blynyddoedd diwethaf' wedi golygu bod pobl sy'n methu â gweithio oherwydd problemau iechyd hirdymor wedi dioddef 'ergyd uniongyrchol i'w hincymau'¹³⁷.

Canfu dadansoddiad o bobl sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn 2016, fod 6% wedi ceisio diweddu eu bywyd yn y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â 1% o'r rheiny nad ydynt yn derbyn y budd-dal hwn, ac y bydd 43% o bobl sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth wedi ceisio diweddu eu hunain yn ystod eu bywyd, o'i gymharu â dim ond 7% o'r bobl hynny nad ydynt yn ei hawlio¹³⁸. Gall iechyd meddwl gwael fod yn ganlyniad neu achos diweithdra, oriau gweithio llai neu ddyled.

Er y bydd dioddef problemau iechyd meddwl yn gwneud rhai pobl yn gymwys am fudd-daliadau gwladol, gall unigolion gael anhawster i hawlio'r rhain, neu brofi oedi ac amhariadau i dderbyn taliadau. Gall cyfnodau hir yn yr ysbyty ei gwneud hi'n anodd hefyd talu ad-daliadau dyled, a gall hefyd arwain at lefelau is o fudd-daliadau gwladol. Gall sgil-ffeithiau meddyginiaeth ei gwneud hi'n anodd cadw trefn ar arian, tra gall rhai cyflyrau meddwl effeithio'n ddifrifol ar gymhelliant¹³⁹.

39.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'dyled', 'arian', 'budd-daliadau' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio problemau yn gysylltiedig â'r anallu i dalu rhent, morgais, biliau neu am eitemau hanfodol, problemau gyda gamblo neu fenthyciadau, neu bryderon ynghylch taliadau budd-dal neu brosesau asesiadau budd-dal. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt bryderon am ddyled, problemau ariannol neu eu bod yn pryderu am daliadau budd-dal, neu fod gan y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch y pryderon hyn. Cofnododd cyfanswm o **250** o alwadau dyled/ arian/budd-daliadau fel problem indecs.

Y gyfran o broblemau indecs a gofnodwyd fel dyled, arian neu bryderon oedd 1.2% o'r cyfanswm problemau indecs a llai na 500 o alwadau, felly byddai cynnwys manylion ynglŷn â pha ddiwrnod o'r wythnos neu ba amser o'r dydd y gwnaethpwyd y galwadau hyn yn gamarweiniol yn ystadegol.

39.3 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 7.6% (19) o'r 250 o alwadau, lle cofnodwyd dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 92.4% (231) o alwadau, lle cofnodwyd dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **18.4%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **13%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **7.5%** o alwadau lle mae **unigrwydd neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **5.1%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **5%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **4%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **3.6%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 8) Roedd gan **3.6%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 9) Roedd gan **3.1%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 10) Roedd gan **2.7%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **2.7%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **2.6%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 13) Roedd gan **2.4%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 14) Roedd gan **2%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 15) Roedd gan **0.9%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd,
- 16) Roedd gan **0%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, ddyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau yn broblem indecs hefyd

40. Problem Indecs Benodol - Digartrefedd neu Dai

40.1 Y Broblem Indecs

Mae tai sefydlog o ansawdd da yn ffactor allweddol i lesiant unigol ac mae pobl sydd â phroblemau tai yn wynebu risg gynyddol o broblemau iechyd meddwl¹⁴⁰. Mae un ym mhob pump o oedolion wedi dioddef problemau iechyd meddwl yn y pum mlynedd diwethaf, o ganlyniad i broblemau tai¹⁴¹. Mae plant sy'n byw mewn tai gorllawn yn fwy tebygol o fod dan straen, yn bryderus ac isel eu hysbryd, ag iechyd meddwl salach, a chyflawni llai o gymwysterau yn yr ysgol.¹⁴²

Mae pobl sydd ag iechyd meddwl gwael un a hanner gwaith yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent, ac maent ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn 'anhapus' â'u tai¹⁴³. Nodir iechyd meddwl gwael yn aml fel rheswm dros denantiaeth yn chwalu a rhoddir problemau tai yn aml fel rheswm dros berson yn cael ei dderbyn, neu ei aildderbyn, i ofal mewnol¹⁴⁴. Mae profedigaeth a pherthnasoedd yn chwalu yn aml yn ffactorau sy'n arwain at ddigartrefedd¹⁴⁵.

Mae'r berthynas rhwng digartrefedd ac iechyd meddwl wedi'i hen sefydlu¹⁴⁶ fel y mae gydag ansicrwydd tai yn fwy cyffredinol¹⁴⁷. Sefydlodd Deddf Tai (Cymru) 2014 sail statudol ar gyfer ymdrin â digartrefedd gyda'r nod o atal, gan olygu mai Cymru yw'r unig genedl i gynnwys dyletswydd i atal digartrefedd yn y gyfraith¹⁴⁸.

Mewn arolwg o unigolion digartref yng Nghymru, adroddodd un ym mhob tri o gyfranogwyr eu bod yn derbyn cymorth iechyd meddwl ac adroddodd pob cyfranogwr arall eu bod yn dioddef rhyw lefel o orbryder neu iselder¹⁴⁹.

40.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'digartrefedd' a 'thai' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio cysgu ar y stryd, cael problemau gyda thenantiaethau ansicr, achos posib o droi allan neu amodau tai anaddas i fyw ynddynt. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi eu bod yn ddigartref neu fod ganddynt bryderon am dai, neu gallai'r person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch gael pryderon o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **228** o alwadau digartrefedd neu dai fel problem indecs.

Y gyfran o broblemau indecs a gofnodwyd fel digartrefedd neu dai oedd 1.1% o'r cyfanswm problemau indecs a llai na 500 o alwadau, felly byddai cynnwys manylion ynglŷn â pha ddiwrnod o'r wythnos neu ba amser o'r dydd y gwnaethpwyd y galwadau hyn yn gamarweiniol yn ystadegol.

40.3 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 3.9% (9) o'r 228 o alwadau, lle cofnodwyd digartrefedd neu dai fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 96.1% (219) o alwadau, lle cofnodwyd digartrefedd neu dai fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **16.8%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **9.5%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **8%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **5.9%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **5.2%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **3.9%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **3.5%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 8) Roedd gan **2.9%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 9) Roedd gan **2.6%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 10) Roedd gan **2.3%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **2.2%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **2.2%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 13) Roedd gan **2.1%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 14) Roedd gan **2.1%** o alwadau lle mae **camdefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 15) Roedd gan **1.7%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd,
- 16) Roedd gan **0.3%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, ddigartrefedd neu dai yn broblem indecs hefyd

41. Problem Indecs Benodol - Aflonyddu neu Fwlio

41.2 Y Broblem Indecs

Ymddygiad dieisiau yw aflonyddu sy'n effeithio ar lesiant person ac yn cwmpasu gweithredoedd o sylwadau annymunol i drais corfforol a gall ddigwydd dro ar ôl tro neu unwaith. Mae fel rheol yn gysylltiedig â nodwedd bersonol megis oedran, rhywedd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anabled. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl anabl rhag triniaeth annheg ac mae hyn yn cynnwys pobl sydd â salwch meddwl. Mae bwlio yn ymgais barhaus, filain neu fychanol sy'n tansailio, barnu neu gywilyddio unigolyn. Mae bwlio ac aflonyddu yn achosion straen yn y gwaith yr adroddir amdanynt yn aml¹⁵⁰. Cynigodd astudiaeth yn 2020 fod aflonyddu rhywiol yn y gweithle yn cynrychioli ffactor risg pwysig ar gyfer ymddygiad hunanladdol¹⁵¹.

Mae pobl ifanc sydd wedi profi bwlio yn fwy tebygol o ddioddef problemau iechyd meddwl ac mae'r rheiny sy'n dioddef problemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o gael eu bwlio¹⁵². Mae bod yn ddioddefwr neu gyflawnwr bwlio wedi cael ei gysylltu'n aml ag ystod o broblemau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn cynnwys hunanladdiad¹⁵³.

41.3 Trosolwg o'r Data

Y termau 'aflonyddu' neu 'fwlio' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio digwyddiadau o stelcio, aflonyddu rhywiol, codi ofn, sarhau, bygwth neu reoli. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi eu bod yn cael eu haflonyddu neu fwlio neu gallai'r person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch fod yn destun ymddygiad o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **220** o alwadau aflonyddu neu fwlio fel problem indecs.

Y gyfran o broblemau indecs a gofnodwyd fel aflonyddu neu fwlio oedd 1% o'r cyfanswm problemau indecs a llai na 500 o alwadau, felly byddai cynnwys manylion ynglŷn â pha ddiwrnod o'r wythnos neu ba amser o'r dydd y gwnaethpwyd y galwadau hyn yn gamarweiniol yn ystadegol.

41.3 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 3.9% (9) o'r 220 o alwadau, lle cofnodwyd aflonyddu neu fwlio fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 96.1% (219) o alwadau, lle cofnodwyd aflonyddu neu fwlio fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) **Roedd gan 9.5%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 2) **Roedd gan 9%** o alwadau lle mae **gwaith neu ysgol** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 3) **Roedd gan 5.7%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 4) **Roedd gan 4.4%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 5) **Roedd gan 4.1%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 6) **Roedd gan 4%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 7) **Roedd gan 3.8%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 8) **Roedd gan 3.2%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 9) **Roedd gan 2.5%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 10) **Roedd gan 2.2%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 11) **Roedd gan 2%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 12) **Roedd gan 1.9%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 13) **Roedd gan 1.7%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 14) **Roedd gan 1.2%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 15) **Roedd gan 1.2%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd,
- 16) **Roedd gan 0.9%** o alwadau lle mae **dementia** yn broblem indecs, aflonyddu neu fwlio yn broblem indecs hefyd

42. Problem Indecs Benodol - Gwaith neu Ysgol

42.1 Y Broblem Indecs

Mewn maes sydd wedi'i ymchwilio'n dda, mae bod yn ddi-waith wedi cael ei gysylltu â salwch meddwl a hunanladdiad^{154,155,156,157}. Canfu astudiaeth ddiweddar fod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn llai tebygol o fod mewn gwaith ac yn cael eu gorgynrychioli mewn swyddi sy'n talu llai¹⁵⁸. Dangoswyd bod gan alwedigaethau penodol gyfraddau uwch na'r cyfartaledd o ddefnyddio alcohol, hunan-niweidio a hunanladdiad¹⁵⁹. Ar ddechrau'r 21ain ganrif gweithwyr proffesiynol megis milfeddygon, fferyllwyr, deintyddion a meddygon oedd yn wynebu'r risg fwyaf o hunanladdiad ond dros y degawd diwethaf mae lleihad sylweddol wedi bod yn y cyfraddau i bob un o'r galwedigaethau hyn. Mae'r rheiny sy'n dangos cynnydd sylweddol mewn cyfraddau hunanladdiad yn tueddu i fod mewn galwedigaethau corfforol¹⁶⁰.

Canfu astudiaeth yn 2020 â disgyblion ysgolion uwchradd fod un ym mhob saith yn 'dioddef problemau iechyd meddwl'. Canfu'r astudiaeth fod merched a disgyblion blwyddyn 11 yn cael eu heffeithio'n benodol, gyda phroblemau emosiynol megis gorbryder ac ysbryd isel ar gynnydd¹⁶¹. Mae astudiaethau wedi dangos bod plant yr amharwyd ar eu haddysg, naill ai drwy waharddiad neu drosglwyddiad, yn fwy tebygol o ymuno â 'gang' ac felly yn fwy tebygol o hunan-niweidio a chael problemau iechyd cymdeithasol ac emosiynol.¹⁶²

42.2 Trosolwg o'r Data

Y termau 'gwaith' neu 'ysgol' oedd y geiriau sbardun i drinwyr galwadau, gan eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio problemau gyda chyflogaeth neu addysg yn cynnwys incwm, cyflawniad, gormes, straen neu gam-drin. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt broblemau yn deillio o fod yn ddi-waith neu broblemau yn y gwaith, yr ysgol neu'r coleg, neu fod gan y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch broblemau o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **100** o alwadau gwaith neu ysgol fel problem indecs.

Y gyfran o broblemau indecs a gofnodwyd fel gwaith neu ysgol oedd 0.5% o'r cyfanswm problemau indecs a llai na 500 o alwadau, felly byddai cynnwys manylion ynglŷn â pha ddiwrnod o'r wythnos neu ba amser o'r dydd y gwnaethpwyd y galwadau hyn yn gamarweiniol yn ystadegol.

42.3 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 2% (2) o'r 100 o alwadau, lle cofnodwyd gwaith neu ysgol fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 98% (98) o alwadau, lle cofnodwyd gwaith neu ysgol fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **5.2%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 2) Roedd gan **4.1%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 3) Roedd gan **3.5%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 4) Roedd gan **3.2%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 5) Roedd gan **2.1%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 6) Roedd gan **2%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 7) Roedd gan **1.8%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 8) Roedd gan **1.7%** o alwadau lle mae **hunan-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 9) Roedd gan **1.4%** o alwadau lle mae **ymddygiad hunanladdol** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 10) Roedd gan **1.3%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 11) Roedd gan **1.1%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 12) Roedd gan **0.9%** o alwadau lle mae **cam-drin domestig** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 13) Roedd gan **0.7%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
 - 14) Roedd gan **0.4%** o alwadau lle mae **camdefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd,
- Roedd gan 0%** o alwadau lle mae **hunaniaeth rywedd neu dementia** yn broblem indecs, waith neu ysgol yn broblem indecs hefyd.

43. Problem Indecs Benodol - Hunaniaeth Rywedd

43.1 Y Broblem Indecs

Mae rhyw person yn disgrifio gwahaniaethau biolegol rhwng genitalia benywaidd neu wrywaidd a phennir rhyw fel rheol ar adeg genedigaeth. Mae rhywedd person yn disgrifio ymdeimlad mewnol person o'u hunaniaeth. Mae person trawsryweddol yn hunan-adnabod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu genedigaeth¹⁶³. Mae iechyd meddwl gwael ac anhwylderau seicolegol yn anghymesur uwch ymhlith pobl drawsryweddol¹⁶⁴. Mae rhai pobl ifanc drawsryweddol neu amrywiol o ran rhywedd yn ei gweld hi'n anodd iawn gofyn am help. Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethu gan weithwyr iechyd proffesiynol yn y gorffennol, pryderon am breifatrwydd, neu ei chael hi'n anodd siarad â dieithriaid am eu problemau¹⁶⁵.

Mae arolwg wedi adrodd o'r gyfran o bobl sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsryweddol fod 52% wedi dweud eu bod wedi dioddef iselder yn y flwyddyn ddiwethaf, 13% o bobl ifanc 18-24 oed wedi dweud eu bod wedi ceisio diweddu eu bywyd yn y flwyddyn ddiwethaf, 16% wedi dweud eu bod wedi yfed alcohol 'bron pob dydd' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 13% o bobl ifanc 18-24 oed wedi dweud eu bod wedi cymryd cyffuriau anghyfreithlon o leiaf unwaith y mis, 13% wedi dioddef rhyw ffurf ar ymdriniaeth annheg gan staff gofal iechyd a 14% wedi osgoi triniaeth gofal iechyd oherwydd eu bod yn ofni gwahaniaethu¹⁶⁶.

43.2 Trosolwg o'r Data

Y term 'hunaniaeth rywedd' oedd y gair sbardun i drinwyr galwadau, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml gan bobl i ddisgrifio problemau yn gysylltiedig â hunaniaeth bersonol. Dogfennodd y casgliad data unigryw sefyllfaoedd lle'r oedd y galwr wedi nodi bod ganddynt broblemau yn deillio o hunaniaeth rywedd megis erledigaeth neu gamdriniaeth, neu fod gan y person yr oeddent yn ffonio yn eu cylch broblemau o'r fath. Cofnododd cyfanswm o **21** o alwadau hunaniaeth rywedd fel problem indecs.

Y gyfran o broblemau indecs a gofnodwyd fel hunaniaeth rywedd oedd 0.1% o'r cyfanswm problemau indecs a llai na 500 o alwadau, felly byddai cynnwys manylion ynglŷn â pha ddiwrnod o'r wythnos neu ba amser o'r dydd y gwnaethpwyd y galwadau hyn yn gamarweiniol yn ystadegol.

43.3 Cysylltiad â Phroblemau Indecs Eraill

Ar gyfer 14.3% (3) o'r 21 o alwadau, lle cofnodwyd hunaniaeth rywedd fel problem indecs, ni chofnodwyd unrhyw broblemau indecs eraill. Ar gyfer 85.7% (18) o alwadau, lle cofnodwyd hunaniaeth rywedd fel problem indecs, cofnodwyd problemau indecs eraill fel y dangosir isod mewn trefn ddisgynnol:

- 1) Roedd gan **0.9%** o alwadau lle mae **aflonyddu neu fwlio** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 2) Roedd gan **0.9%** o alwadau lle mae **digartrefedd neu bryderon am dai** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 3) Roedd gan **0.5%** o alwadau lle mae **unigrwydd a/neu arwahanrwydd** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 4) Roedd gan **0.4%** o alwadau lle mae **straen, gorbryder neu banig** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 5) Roedd gan **0.3%** o alwadau lle mae **human-niweidio neu orddos bwriadol** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 6) Roedd gan **0.3%** o alwadau lle mae **salwch meddwl** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 7) Roedd gan **0.2%** o alwadau lle mae **ysbryd isel neu iselder posib** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 8) Roedd gan **0.2%** o alwadau lle mae **ymddygiad humanladdol** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 9) Roedd gan **0.1%** o alwadau lle mae **dryswch neu ymddygiad rhyfedd** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 10) Roedd gan **0.1%** o alwadau lle mae **camddefnyddio sylweddau** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 11) Roedd gan **0.1%** o alwadau lle mae **perthnasoedd** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,
- 12) Roedd gan **0.1%** o alwadau lle mae **meddwdod** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd,

Roedd gan **0%** o alwadau lle mae **dyled, arian neu bryderon am fudd-daliadau, cam-drin domestig, gwaith neu ysgol neu dementia** yn broblem indecs, hunaniaeth rywedd yn broblem indecs hefyd.



RHAN CH

CASGLIAD AC ARGYMHELLION

Cynnwys

44. CASGLIAD.....	116
-------------------	-----

BETH BYNNAG FO'R PRYDER DAN SYLW...MAE YMATEB CYFLYM, PRIODOL A CHEFNOGOL YN HANFODOL.

DATGANIAD GAN: LYWODRAETH CYMRU A PHARTNERIAID CONCORDAT GOFAL MEWN ARGYFWNG IECHYD MEDDWL (2015)

44. Casgliad

Mae'r Adolygiad hwn yn ddiwedd ar archwiliad helaeth o'r materion ynghylch mynediad at wasanaethau brys i'r rheiny sy'n profi pryderon iechyd meddwl a/neu lesiant. Mae'r Adolygiad wedi nodi rhai bylchau gwybodaeth sy'n berthnasol i ofal mewn argyfwng megis y rheiny'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol mewn argyfwng, y gwasanaeth ICAN, fflgiau iechyd meddwl yr heddlu a rhai problemau indecs.

Mae'r Adolygiad wedi defnyddio gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus, casgliad data unigryw a'r astudiaethau diweddaraf ar gael i ddarparu'r manylion a gyflwynir. Yn yr Adolygiad mae cyfyngiadau i'r data a ddefnyddiwyd, yn enwedig lle gwneir casgliadau yn seiliedig ar ddata hanesyddol, ceisiadau data un tro neu alw iechyd meddwl wedi'i hunanddatgan. Canfu'r Adolygiad fod y data anghyson a diffiniadau amwys rhwng, ac o fewn, gwasanaethau yn gwneud deall y maes dan ymchwiliad yn fwy anodd. Mae gan y cynnydd a wnaed gan yr Heddlu, i ddarparu data cipolwg blynyddol, weindiadau hyd yn oed, yn nhermau amrywiaethau tymhorol a gwybodaeth amser real.

Argymhelliad:

Dylai gwasanaethau'r sector cyhoeddus sicrhau y cesglir ac y rhennir data amser real, cyson ynghylch galw iechyd meddwl/llesiant a mabwysiadu diffiniadau cyffredin ar gyfer argyfwng iechyd meddwl ac ystod o bryderon llesiant.

Mae'r Adolygiad wedi sefydlu bod y galw ar ofal sylfaenol, yr heddlu, gwasanaethau ambiwlans ac adrannau achosion brys, yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl y GIG ar gyfer

y rheiny mewn argyfwng yn sylweddol. Mae'r Adolygiad yn amcangyfrif bod **941** o alwadau/ymweliadau/atgyfeiriadau ar gyfer pryderon iechyd meddwl neu lesiant yng Nghymru bob dydd:

Mae **319** o'r rhain ar gyfer gwasanaethau ymateb ar unwaith neu i argyfwng, megis:

- 142 o ymweliadau ag adrannau achosion brys Cymru,
- 99 o alwadau i rif '999' yr Heddlu,
- 73 o alwadau i rif '999' Gwasanaethau Ambiwllans Cymru,
- 5 o asesiadau Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Mae **298** arall o'r rhain ar gyfer gwasanaethau ymateb brys, megis:

- 128 o alwadau i rif '101' yr Heddlu,
- 53 o atgyfeiriadau i dimau argyfwng iechyd meddwl y GIG,
- 50 o atgyfeiriadau i wasanaethau cyswllt seiciatrig y GIG,
- 41 o alwadau i'r llinell gymorth C.A.L.L.,
- 14 o gysylltiadau 'wyneb yn wyneb' gan wasanaeth cymorth adran achosion brys ICAN Gogledd Cymru,
- 12 o alwadau i wasanaeth '111' y GIG.

Ac mae **324** arall ar gyfer gwasanaethau ymateb safonol, megis:

- 215 o atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth gofal sylfaenol iechyd meddwl y GIG,
- 109 o atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth gofal eilaidd iechyd meddwl y GIG.

Amlygodd yr Adolygiad rai camau gweithredu a allai gefnogi ymateb mewn argyfwng mwy

Mae'r grwpiau hyn yn amcangyfrifon eang ac mae gan y ffigyrau gafeatau sylweddol. Nid yw'r niferoedd hyn yn adlewyrchu unigolion yn y ddalffa na phobl sy'n ceisio cymorth a chynghor gan asiantaethau'r trydydd sector a'r llinellau cymorth a safleoedd cymorth ar-lein niferus sydd ar gael. Mae'r Adolygiad wedi dangos bod sawl asiantaeth a sefydliad yn ymdrechu i gefnogi pobl mewn argyfwng ond y gellir cyflawni mwy drwy ymdrech ar y cyd. Argymhellodd un astudiaeth model argyfwng yn seiliedig ar gomisiynu, sy'n gweithio ar draws ystod o sectorau megis gofal cymdeithasol, gofal iechyd meddwl, gofal aciwt, gwasanaethau ambiwlans a'r heddlu¹⁶⁷.

Mae'r Adolygiad wedi dangos y gallai pedwar ym mhob deg galwad fod yn briodol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau'r GIG megis ymddygiad hunanladdol, hunan-niweidio, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl a dementia. Gallai hyd at dri ym mhob deg galwad fod yn briodol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu megis camdrin domestig, meddwdod, dryswch ac aflonyddu ac y gallai ychydig dros dri ym mhob deg galwad fod yn briodol ar gyfer cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector megis straen, gorbryder, dyled, unigrwydd a digartrefedd. Dangosodd yr Adolygiad fod argyfwng unigol yn gymhleth gyda sawl problem iechyd meddwl, emosiynol a chymdeithasol yn gydgyssylltiedig.

Argymhelliad:

Dylai fod yna gydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i wella canlyniadau i bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl neu'n ceisio cymorth ar gyfer pryderon llesiant, wedi'i gyfundrefnu drwy fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys safonau amlasiantaethol, mesurau system gyfan a dangosyddion ar gyfer llwyddiant.

Datgelodd yr Adolygiad fod pobl yn ceisio cymorth bob amser o'r dydd, er bod y rhan fwyaf yn ceisio cymorth y tu allan i oriau swyddfa arferol, a bod gan ysgogwyr argyfwng gwahanol batrymau galw penodol. Mae'r Adolygiad wedi cyflwyno tystiolaeth y gallai darparu cynghor a chymorth pwrpasol ar yr adegau hyn a darparu cymorth i faterion megis perthnasoedd, tai, dyled, a chamddefnyddio sylweddau osgoi'r defnydd o wasanaethau ymateb brys.

Argymhelliad:

Rhaid i adrannau atebol Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyfrifol y sector cyhoeddus sicrhau bod cymorth ar gael ac yn hygyrch, ar yr adegau gofynnol, i fynd i'r afael â phryderon llesiant brys megis dementia, camddefnyddio sylweddau, dyled a digartrefedd.

effeithiol megis sicrhau bod pobl sy'n mynychu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn gwybod pwy i gysylltu â nhw mewn argyfwng.

Argymhelliad:

Rhaid i wasanaethau gofal eilaidd iechyd meddwl y GIG sicrhau bod gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd, gynlluniau argyfwng yn eu lle sy'n adeiladu ar anghenion yr unigolyn, gwytnwch personol a chymau gweithredu ataliol.

unigolion coll, yn enwedig o gyfleusterau yn gofalu am unigolion bregus.

Argymhelliad:

Rhaid i wasanaethau'r sector cyhoeddus sy'n rheoli neu gomisiynu cyfleusterau sy'n gofalu am bobl fregus sicrhau bod ganddynt brotocol 'unigolion coll' cadarn yn ei le. Dylai'r protocolau hyn nodi mesurau ataliol i leihau galwadau unigolion coll i'r heddlu, megis rheoli risg yn rhagweithiol.

Tynnodd yr Adolygiad sylw at brosiectau mewn rhannau eraill o'r DU, a arddangosodd y gall un pwynt mynediad i bobl mewn argyfwng fod yn fuddiol i unigolion a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd. Gall yr un pwynt mynediad hwn sicrhau bod gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol arbenigol ar gael i ddarparu gwasanaeth brysbennu clinigol, atgyfeirio ymlaen a chyfeirio effeithiol i unigolion mewn argyfwng a chynghor awdurdodol i staff gofal sylfaenol, swyddogion heddlu a chriwiau ambiwlans. Bydd rhaid i unrhyw wasanaeth newydd ategu a gweithio'n agos â gwasanaethau argyfwng y GIG a gweithwyr iechyd meddwl mewn ystafelloedd rheoli'r heddlu sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad:

Dylai GIG Cymru hwyluso mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol arbenigol drwy un pwynt mynediad, megis gwasanaeth 111 GIG Cymru. Rhaid i'r gwasanaeth hwn gael cysylltiadau cryf â'r trydydd sector a chymorth hunangymorth a darparu llwybrau atgyfeirio i ofal sylfaenol, yr heddlu a staff meddygol brys.

Trafodir digwyddiadau trawmatig sy'n digwydd yn ystod plentyndod ac yn cael effaith hirbarhaol ar fywyd unigolyn yn yr Adolygiad. Dengys yr Adolygiad fod cannoedd o blant a phobl ifanc yn eu harddegau yn galw'r gwasanaethau brys i geisio cymorth, yn enwedig ynghylch problemau yn yr ysgol neu broblemau yn gysylltiedig ag aflonyddu neu fwlio. Dangosodd yr Adolygiad achosion lle gall cyfathrebu cynnar, cyfeirio effeithiol, cymorth gwell i deuluoedd neu ofalwyr a meithrin gwytnwch leihau effaith y digwyddiadau andwyol hyn.

Amlygodd yr Adolygiad yr adnoddau sylweddol a ymrwymir gan yr Heddlu wrth ymateb i apelïadau

Argymhelliad:

Dylai pob asiantaeth y sector cyhoeddus a'r trydydd sector hyrwyddo dull wedi'i lywio gan drawma i argyfwng.

Mae'r adolygiad wedi nodi mai ymateb yr heddlu, ambiwlans neu adran achosion brys yw'r canlyniad gorau, i rai mewn argyfwng, fodd bynnag mae hefyd wedi amlygu'r enghreifftiau niferus o gyfleoedd wedi'u colli i gael cymorth i unigolion sy'n diwallu eu hanghenion orau cyn bod gwasanaethau o'r fath yn ofynnol. Gellir manteisio ar y cyfleoedd hynny megis rhyddhau cleifion o adrannau achosion brys, defnyddwyr dwyster uchel ac ymgynghoriadau gofal sylfaenol i sicrhau cyfeirio unigolion yn effeithiol at gymorth. Archwiliodd yr Adolygiad gaffis argyfwng a noddfeydd a phwysleisiodd eu manteision yn darparu dewisiadau eraill yn lle cyfnod yn yr ysbyty. Mae pwysigrwydd partneriaid y trydydd sector yn datblygu a darparu gwasanaethau ataliol wedi cael ei adnabod yn glir yn yr Adolygiad.

Argymhelliad:

Dylai'r sector cyhoeddus ddarparu, lle bynnag y bo'n bosib mewn partneriaeth â'r trydydd sector, ystod o wasanaethau atal neu ymateb i argyfwng gan gynnwys caffis argyfwng neu noddfeydd, cymorth i ddefnyddwyr dwyster uchel, triniaeth gartref a chymorth gofal sylfaenol.

Sefydlodd yr Adolygiad fod person arall heblaw am y person gyda'r broblem indecs, yn galw am gymorth, mewn tri allan o bump o alwadau. Datgelodd yr Adolygiad yr asiantaethau niferus y gallai unigolion gael mynediad atynt mewn argyfwng neu pan maent yn ceisio cyngor a'r anawsterau y mae rhai pobl yn eu hwynebu wrth ddeall y dirwedd gymhleth hon.

Argymhelliad:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch cyfathrebu cenedlaethol i sicrhau bod unigolion, gofawyr ac aelodau o'r teulu yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am gymorth neu gyngor iddynt eu hunain ac eraill mewn argyfwng.

Dangosodd yr Adolygiad yr achosion niferus lle gall pobl fod wedi'u heithrio rhag gwasanaethau neu eu rhwystro rhag ceisio cymorth naill ai drwy ofn, diwylliant neu agwedd, drwy gymhlethdod systemau neu drwy ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Argymhelliad:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch cyfathrebu cenedlaethol i sicrhau bod unigolion, gofawyr ac aelodau o'r teulu yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am gymorth neu gyngor iddynt eu hunain ac eraill mewn argyfwng.

Mae'r Adolygiad yn cydnabod bod staff mewn heddluoedd, gwasanaethau ambiwlans ac adrannau achosion brys yn mynd y tu hwnt i'r alwad o ddyletswydd i ofalu am y rheiny sydd â phryderon iechyd meddwl neu lesiant gydag empathi a thosturi, bob dydd. Mae'r Adolygiad yn cynnig cymorth i'r gweithwyr hyn drwy hyrwyddo mesurau ataliol a darparu ymyriadau cynnar, dulliau eraill, llwybrau clir a chydweithio amlasiantaethol ar gyfer pobl mewn argyfwng.



RHAN D

ATODIADAU A CHYFEIRIADAU

Cynnwys

ATODIAD 1 - AELODAETH O'R GRŴP CYFEIRIO ARBENIGOL.....	122
ATODIAD 2 - FFURFLEN CASGLU DATA UNIGRYW A THAFLEN ESBONIADOL.....	123
ATODIAD 3 - CASGLIAD DATA UNIGRYW - TROSOLWG.....	127
ATODIAD 4 - CYSYLLTIAD RHWNG PROBLEMAU INDECS - CRYNODEB.....	128
ATODIAD 5 - PROBLEMAU INDECS YN ÔL COD POST.....	129
ATODIAD 6 - OFFERYN BRYSBENNU IECHYD MEDDWL.....	130
CYFEIRIADAU.....	132
ÔL-NODIADAU.....	139

Atodiad 1 - Aelodaeth o'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol

Mynychodd yr aelodau canlynol o leiaf un o gyfarfodydd neu weithdai'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol a sefydlwyd fel rhan o'r Adolygiad:

- Will Adams, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Simon Amphett – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Kate Blackmore, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Stephen Clarke, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Adrian Clarke, Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol
- Phil Chick, Uned Gyflawni GIG Cymru
- Stephen Clinton, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Garry Davies – Gwasanaeth Tân De Cymru
- Jason Davies, Heddlu De Cymru
- Richard David, Heddlu Gwent
- Amanda Diggins, Heddlu Dyfed–Powys
- Meinir Evans, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Andrea Grey, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Christopher Grey, Heddlu De Cymru
- Richard Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Simon Jones, Mind Cymru
- Mydrain Harries, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Howard Hopkins, Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen
- Scott Jones, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Hanan L'Estrange–Snowden, Picker Europe
- Mark Lewis, Heddlu De Cymru
- Phil Lewis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Dean Loader, Gwasanaeth Tân De Cymru
- Peter Martin, Mind
- Nick McClain, Heddlu Gwent
- Andrew Misell – Alcohol Change
- Alun Newsome, Gwylwyr y Glannau Aberdaugleddau
- Christopher O'Driscoll – Heddlu Gwent
- Sarah Jane Paxton, Gwasanaethau Cymdeithasol Torfaen
- Roger Perks, Llywodraeth Cymru
- Jonathan Salisbury–Jones, Heddlu Gogledd Cymru
- Dave Richards, Heddlu Gwent
- Phillip Stylianides, Picker Europe
- Anna Sussex, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Peter Thomas, Gwasanaethau Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau
- David Wastell, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ross Whitehead, Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol
- Amanda Williams, Heddlu Gwent
- Dr Dave Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Nick Wood, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ymddiheuriadau am beidio â chynnwys unrhyw un ar y rhestr hon, yn anffodus cafwyd gwared ar un daflen presenoldeb mewn camgymeriad.

Atodiad 2 - Ffurflen Casglu Data Unigryw a Thaflen Esboniadol

Mae'r ffurflen isod yn atgynhyrchiad o'r ffurflen casglu data unigryw a ddatblygwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn. Dyluniwyd y ffurflen casglu data hon yn benodol fel taflen A5 un ochrog, er mwyn sicrhau y gallai trinwyr galwadau ei chwblhau'n gyflym ac na fyddai'n oedi eu gofyniad i anfon cerbyd brys neu ddargyfeirio'r alwad i wasanaeth priodol.

WALES MH ACCESS REVIEW DATA COLLECTION SHEET

REF/INC NO:

DATE: (DD/MM/YY)
..... / /

CALL START TIME: (24HR)
..... :

CALL END TIME: (24HR)
..... :

SEX of person with issue

MALE FEMALE OTHER

AGE of person with issue

0-15 16-25 26-35 36-65 65+

WHO IS CALLING

PERSON WITH ISSUE FRIEND/ NEIGHBOUR PARENT/ RELATIVE CHILD PROFESSIONAL PUBLIC/ STRANGER

ISSUES

Caller / person they are calling about has the following issues
TICK 1 MAIN & AS MANY OTHERS AS NEEDED

	MAIN	OTHER		MAIN	OTHER
SUICIDAL	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	DEBT/MONEY/ BENEFITS	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
SELF HARM/ OVERDOSE	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	HOUSING/ HOMELESSNESS	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
LOW MOOD DEPRESSION	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	WORK/ SCHOOL ISSUE	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
STRESS/ ANXIETY/PANIC	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	LONELY/ ISOLATED	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
SUBSTANCE ABUSE	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	RELATIONSHIP ISSUES	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
DRUNK/ INTOXICATED	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	DOMESTIC ABUSE	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
DEMENTIA	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	CONFUSION/ STRANGE BEHAVIOUR	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
DIAGNOSED MENTAL HEALTH	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	GENDER IDENTITY/ QUESTIONING	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
HARASSMENT/ BULLIED	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>			

NOTES/OTHER ISSUES
(physical health, veterans, immigration, asylum seeking)

-MH

Taflen Esboniadol

Roedd y daflen hon yn mynd law yn llaw â'r ffurflen A5 i roi cyd-destun i drinwyr galwadau a lleihau amrywiaeth.

Mae **CYF**: ar gyfer rhif adnabod y digwyddiad neu rif cyfeirnod mewnol arall y gellir ei gysylltu â'r daflen.

PWYSIG: y nod yw ceisio rhestru'r holl broblemau indecs/problemau y mae'r galwr yn eu hadnabod fel rhesymau posib dros eu gofid/galwad am help. Gallai hyn olygu bod y triniwr galwadau yn ticio sawl blwch wrth i'r galwr restru eu problemau yn ystod yr alwad. Mae hyn yn dderbyniol oherwydd rydym eisiau cymaint o wybodaeth ynglŷn ag achosion eu gofid ag sy'n bosib. Pa broblemau indecs cymdeithasol, ariannol etc... sy'n achosi gofid/problemau iechyd meddwl y galwyr.

ACHOS ENGHREIFFTIOL: mae'r galwr yn gofyn am help oherwydd eu bod yn cael meddyliau a theimladau hunanladdol, neu wedi gweithredu ar y meddyliau hyn. Yn ystod y sgwrs, os cyfyd mai perthynas yn chwalo, problemau ariannol, problemau indecs yn ymwneud â thai yw'r rhesymau dros pam fod y galwr yn teimlo fel y mae. Gall y triniwr galwadau dicio meddyliau hunanladdol fel y brif broblem indecs ond gall hefyd dicio problemau indecs yn ymwneud â pherthynas, arian a thai fel problemau indecs eraill.

HUNANLADDOL: y galwr yn disgrifio'r person y maent yn bryderus amdanynt fel/neu nhw eu hunain fel: Unrhyw ymgais i ddiweddu eu bywyd. Wedi mynegi meddyliau neu deimladau i fod eisiau diweddu eu bywyd. Wedi mynegi cynllun i ddiweddu eu bywyd. Galwr yn bryderus am y sawl a ddisgrifir/crybwyllir yn ceisio diweddu eu bywyd.

HUNAN-NIWEIDIO/GORDDOS: y galwr yn disgrifio'r person y maent yn bryderus amdanynt fel/neu nhw eu hunain fel: Wedi mynegi meddyliau neu deimladau i frifo neu niweidio eu hunain. Cymryd neu gynllunio i gymryd tabledi/hylif i orddosio. Arwyddion gweledol:- briwiau ffres, creithiau, sgriffiadau, marciau tagu, gwaedu etc. unrhyw beth sy'n edrych fel niwed annaturiol/anghyffredin, dylid ystyried toriad yn y croen, sgriffiadau fel anaf o ganlyniad i hunan-niweidio heb esboniad credadwy am yr anafiadau. Galwr yn bryderus bod y sawl a ddisgrifir/crybwyllir wedi hunan-niweidio. Teimlo dan bwysau i hunan-niweidio o ganlyniad i ddylanwad cyfoedion/y cyfryngau cymdeithasol.

YSBRYD ISEL/ISELDER: y galwr yn disgrifio'r person y maent yn bryderus amdanynt fel/neu nhw eu hunain fel: teimlo'n isel, digalon a dagreuol. Aflonydd, cynhyrfus neu bigog. Osgoi gweithgareddau cymdeithasol a ddim yn gwneud pethau y byddent fel rheol yn eu mwynhau. Anawsterau i wneud penderfyniadau/diffyg canolbwytio ar dasgau. Methu â chael sgwrs ddealladwy/gydlynol â chi. Ynysu eu hunain gan ddweud eu bod yn teimlo'n isel, diwerth, wedi colli diddordeb mewn pethau a dim amynedd i wneud unrhyw beth. Defnyddio alcohol neu sylweddau fel mecanweithiau ymdopi. Y galwr wedi dweud bod y person y maent yn bryderus amdanynt yn disgrifio eu hunain fel yr uchod, teimlo'n isel. Maent yn dweud eu bod yn teimlo'n isel o ganlyniad i bwysau gwaith/ysgol/arholiadau.

STRAEN/GORBRYDER/PANIG: y galwr yn disgrifio'r person y maent yn bryderus amdanynt fel/neu nhw eu hunain fel: Pigog, rhwystredig neu fyr eu tymer. Pryderu a phoeni am dasgau sydd ganddynt i'w gwneud. Ddim yn cysgu na bwyta neu orgysgu a gorfwyta. Dweud eu bod yn teimlo fel bod popeth yn eu herbyn, ymdeimlad o ofn, methiant. Cur pen, poen bol, poen cefn a phroblemau iechyd corfforol cysylltiedig eraill. Aflonydd, ddim yn gallu canolbwytio'n dda. Y galwr wedi dweud bod y person y maent yn bryderus amdanynt yn disgrifio eu hunain fel yr uchod, teimlo dan straen, yn dioddef o orbryder. Maent yn dweud eu bod yn teimlo dan straen/yn bryderus o ganlyniad i bwysau gwaith/ysgol/arholiadau. Pwysau arholiadau. Yr holl broblemau eraill lle mae'r galwr yn disgrifio eu hunain fel teimlo dan straen, yn dioddef o orbryder.

CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU: y galwr yn disgrifio'r person y maent yn bryderus amdanynt fel/neu nhw eu hunain fel: defnyddio/treulio unrhyw fath o feddyginiaeth gyfreithlon, cyffur lleddfu poen/anghyfreithlon: heroin, cocên, ecstasi etc/cyffuriau penfeddwol cyfreithlon: nitraws ocsid, meffedron, methamfetamin etc. Maent wedi bod yn defnyddio unrhyw rai o'r sylweddau hyn ac wedi defnyddio

gormod hyd nes eu bod mewn gofid seicolegol/corfforol bellach. Mae'r person yn anymatebol, wedi taflyd i fyny, wedi cael atafaeliad, wedi anafu eu hunain, yn flin, yn arddangos ymddygiad treisgar ar ôl ei dreulio. Mae gan y person hanes hir o gamddefnyddio'r sylweddau uchod. Mae'r person yn ddibynnol ar y sylweddau hyn. Problemau cymdeithasol megis perthynas yn chwalu, problemau indecs yn ymwneud â thai, colli gwaith o ganlyniad i ddefnyddio'r sylweddau uchod.

MEDDWDOD: y galwr yn disgrifio'r person y maent yn bryderus amdanynt fel/neu nhw eu hunain fel: treisgar/blin/anymatebol/wedi taflyd i fyny/ymddengys eu bod wedi cael atafaeliad. Ymddengys eu bod yn feddw ar unrhyw sylwedd, gallai fod yn alcohol neu unrhyw sylwedd arall. Nid ydym yn chwilio am hanes o gamddefnyddio sylweddau/alcohol (gweler uchod) ond gordddefnydd/camddefnydd digymell o sylwedd meddwol.

CAM-DRIN DOMESTIG: y galwr yn disgrifio'r person y maent yn bryderus amdanynt fel/neu nhw eu hunain fel: bod mewn perthynas ddomestig sy'n gamdriniol/treisgar. Achosi niwed i berson arall y maent mewn perthynas â nhw: corfforol, rhywiol, seicolegol, ariannol, aflonyddu, rheoli. Galwr yn clywed/gweld bygythiadau corfforol, trais, aflonyddu seicolegol, rhywiol, sy'n rheoli/cam-drin ariannol gan gyflawnwr.

